Page 29	1.1 Mae pobl yng Nghaerdydd yn iach; <i>Ystyriwch yr effaith bosibl ar</i> <ul style="list-style-type: none"> <i>hybu iechyd da, atal ymddygiad niweidiol, hyrwyddo bwyta'n iach / ffyrdd o mwy gweithgar o fyw ayb.</i> <i>dinasyddion sy'n agored i niwed ac ardaloedd o amddifadedd lluosog</i> <i>Ymdrin ag achosion o anghydraddoldeb mewn iechyd</i> 			x		Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r mwyafrif o ddisgyblion a gaiff eu heffeithio gan y newid yn parhau i fod o fewn milltir i Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, a byddai cyfran sylweddol yn byw o fewn 0.5 milltir i'r ysgol. Efallai y bydd cynnydd bach yn nifer y disgyblion yn ardal Y Tyllgoed (y rhai sy'n agos at safle Plasmawr) sy'n dewis ffurfiau o deithio sy'n achosi mwy o lygredd.
	Mae gan bobl Caerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy; <i>Ystyriwch yr effaith bosibl ar</i> <ul style="list-style-type: none"> <i>y ffactorau sy'n achosi Newid yn yr Hinsawdd, canlyniadau Newid yn yr Hinsawdd a chreu dinas carbon isel</i> 				x	Mae llai na hanner cyfanswm y boblogaeth disgyblion oed ysgol uwchradd yn yr ardal hon yn cymudo ar hyn o bryd i ysgolion cyfrwng Saesneg neu ysgolion ffydd. Mae mwyafrif y rhain yn mynychu Ysgol Uwchradd Cantonian (yn Y Tyllgoed); Ysgol Uwchradd Fitzalan (yn Lecwydd) neu Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf (yn Llandaf). Mae llawer o'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion hyn yn cerdded i'r ysgol a disgwylir mai dim ond ychydig o ddisgyblion yr effeithir arnynt gan y cynnig a fyddai'n bellach oddi wrth eu hysgol uwchradd leol a hefyd a fyddai'n dewis defnyddio ffurfiau o deithio sy'n achosi mwy o lygredd.
	<ul style="list-style-type: none"> <i>annog cerdded, beicio, a defnydd o gludiant cyhoeddus a gwella mynediad i gefn gwlad a mannau agored</i> 			x		
	<ul style="list-style-type: none"> <i>lleihau llygredd amgylcheddol (tir, aer, sŵn a dŵr)</i> 	x				Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, mae'n debyg y byddai disgyblion yn Cathays a Gabalfa a rhai rhannau o Dreganna; Y Tyllgoed; Ystum Taf a Glan-yr-Afon yn parhau i ddefnyddio'r ffurfiau presennol o deithio.

Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tud 3 o 8
-----------------------	-------------------	------------------------------	-----------------------	-----------

	A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
		+	-	Ntrl	Ansic r	
						<p>Pe na bai'r cynnig yn cael ei weithredu, mae'n debyg y byddai disgyblion yn Llandaf a rhannau eraill o Dreganna; y Tyllgoed a Glan-yr-Afon yn parhau i ddefnyddio'r ffurfiau presennol o deithio.</p> <p>I grynhoi, mae'n debyg y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol, o ganlyniad i ostyngiad net o ddisgyblion yn defnyddio dulliau teithio sy'n achosi llygredd, o gymharu â pheidio â gweithredu'r cynnig.</p> <p>Dalgylch cynradd: Dylai'r diwygiad arfaethedig i ddalgylch cynradd Ysgol Pencae er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng dalgylchoedd diwygiedig Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr sefydlogi'r cyflenwad i ddarparu ar gyfer y galw am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt, ac felly annog cerdded a beicio i ac o'r ysgol.</p> <p>Byddai holl rieni'r disgyblion yn dal i gadw'r hawl i fynegi dewis ar gyfer derbyn eu plentyn i unrhyw un o'r ysgolion dan sylw.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> <i>lleihau defnydd ac annog lleihau gwastraff, aildefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff</i> 					amh.
	<ul style="list-style-type: none"> <i>annog bioamrywiaeth</i> 					amh.
1.3	<p>Mae pobl Caerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel; <i>Ystyriwch yr effaith bosibl ar</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <i>leihau trosedd, ofn trosedd a chynyddu diogelwch unigolion</i> <i>ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol</i> <i>amddiffyn oedolion a phlant sy'n agored i niwed yng Nghaerdydd rhag niwed neu gamdriniaeth.</i> 					amh.
1.4	<p>Mae gan Gaerdydd economi sy'n ffynnu ac yn llwyddo; <i>Ystyriwch yr effaith bosibl ar</i></p>					amh.

	A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
		+	-	Ntrl	Ansic r	
	<ul style="list-style-type: none"> • <i>gystadleurwydd economaidd (gweithgaredd menter, mentrau cymdeithasol, enillion cyfartalog, gwella cynhyrchiant)</i> • <i>Cynorthwyo'r rhai nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant</i> • <i>denu a chadw gweithwyr (cyflogaeth newydd a chyfleoedd hyfforddi, cynyddu gwerth cyflogaeth)</i> • <i>hyrwyddo cyfleoedd caffael lleol neu wella gallu cwmnïau lleol i gystadlu</i> 					
1.5	<p>Mae pobl Caerdydd yn cyflawni eu llawn botensial; <i>Ystyriwch yr effaith bosibl ar</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>hyrwyddo a gwella mynediad i ddysgu gydol oes yng Nghaerdydd</i> • <i>codi lefelau sgiliau a chymwysterau</i> • <i>rhoi'r cychwyn gorau i blant</i> • <i>gwella dealltwriaeth o gynaliadwyedd</i> • <i>ymdrin â thlodi plant (tlodi ariannol, tlodi mynediad, tlodi cyfranogiad)</i> • <i>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Egwyddorion ar gyfer Pobl Hŷn</i> 	x				<p>Dalgylchoedd uwchradd: Ni ddisgwylir i drosglwyddo dalgylch (Ysgol Pencae) gael effaith andwyol ar nifer y plant sy'n mynychu Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr gan fod galw sylweddol sy'n fwy na'r cyflenwad o fewn y dalgylch. O'r herwydd, bydd yr ysgol yn parhau i elwa ar y lefelau presennol o gyllid fesul disgybl ac felly nid effeithir ar yr ystod o bynciau a gynigir, ynghyd ag arbenigeddau staff i gynnig ystod gynhwysfawr o bynciau.</p> <p>Bydd trosglwyddo'r dalgylch i ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf o Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn cynyddu'r nifer o blant sy'n debygol o fynychu Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Bydd cynnydd yn nifer y plant yn arwain at fwy o gyllid i Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf (yn seiliedig ar y dyraniad cyllid fesul disgybl) gan ganiatáu ar gyfer ystod ehangach o bynciau ac arbenigwyr staff a fyddai'n gwella'r cynnig i ddisgyblion presennol yr ysgol a rhai'r dyfodol.</p> <p>Mae'r ddwy ysgol yn cynnig addysg lawn a chynhwysfawr i'w disgyblion ac yn cydweithio gydag ysgolion eraill fel rhan o gynnig bartneriaeth 14-19 ar draws Caerdydd</p> <p>Dalgylchoedd cynradd: Dylai'r diwygiad arfaethedig i ddalgylch cynradd Ysgol Pencae er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng dalgylchoedd diwygiedig Ysgol</p>

	A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
		+	-	Ntrl	Ansic r	
						Gyfun Gymraeg Glantaf ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr sefydlogi'r cyflenwad i ddarparu ar gyfer y galw am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt, ac felly annog cerdded a beicio i ac o'r ysgol.
Page 52	1.6 Mae Caerdydd yn lle gwyach i fyw, gweithio a chwarae ynddo <i>Ystyriwch yr effaith bosibl ar</i> <ul style="list-style-type: none"> hybu amrywiaeth diwylliannol Caerdydd annog cyfranogiad a mynediad i bawb at weithgarwch corfforol, hamdden a diwylliant cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc diogelu a gwella tirwedd a threftadaeth hanesyddol Caerdydd hybu cysylltiadau rhyngwladol y Ddinas 			x		Petai'r cynnig yn symud ymlaen i'w weithredu, byddai pob ysgol dan sylw yn parhau i gael cymeriant cymysg o ddisgyblion. Er efallai y byddai cyfrannau'n newid, byddai'r myfyrwyr yn parhau i elwa ar y cyflenwad llawn o brofiadau diwylliannol ac addysgol y maent wedi eu derbyn hyd yn hyn; nid yw'r newid arfaethedig yn effeithio ar ansawdd yr addysg nac yn cyfyngu ar y cynnig sy'n benodol i amrywiaeth diwylliannol, gweithgaredd corfforol, hamdden neu ddiwylliant a gynigir gan bob ysgol.
	Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, gyfiawn a chynhwysol <i>Ystyriwch yr effaith bosibl ar</i> <ul style="list-style-type: none"> ddileu camwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth grwpiau cydraddoldeb 			x		Mae gan bob ysgol bolisiau priodol ar waith i ddelio ag unrhyw faterion sy'n codi, ac mae gan bob ysgol ddyletswydd i sicrhau nad oddefir camwahaniaethu yn erbyn unrhyw un o'r grwpiau cydraddoldeb.
	<ul style="list-style-type: none"> a yw'r gymuned neu randdeiliaid wedi'u cynnwys yn y broses o ddatblygu'r strategaeth/polisi/gweithgaredd? sut yr anogir cyfranogiad gan ddinasyddion (annog camau gweithredu sy'n ystyried mathau gwahanol o ymgynghori, drwy ymgysylltu mwy trylwyr, i gyfranogiad llawn mewn datblygu a darparu gwasanaeth)? 	x				Mae'r broses ymgynghori yn cydymffurfio â chod derbyn Llywodraeth Cymru a fwriedir i ymgysylltu â rhanddeiliaid, a bwriedir i'r safbwyntiau a gyflwynir fel rhan o hyn lywio'r broses o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud yn benodol â'r newid arfaethedig.
ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB A fydd y Polisi/Strategaeth/Project hwn yn cael effaith wahaniaethol ar unrhyw un o'r canlynol:						<i>Rhowch fanylion/ganlyniadau'r effaith wahaniaethol (cadarnhaol a negyddol), a pha gam(au) y gallwch eu cymryd i ymdrin ag unrhyw oblygiadau negyddol?</i>

Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tud 6 o 8
-----------------------	-------------------	------------------------------	-----------------------	-----------

A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
	+	-	Ntrl	Ansic r	
<ul style="list-style-type: none"> Oed (yn cynnwys plant a phobl ifanc 0-25 a phobl hŷn dros 65 oed yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig) 	x				<p>Gweler 1.1. a 1.2</p> <p>Plant gyda brodyr neu chwiorydd sy'n mynychu'r ysgol yr effeithir arni gan y newid dalgylch: Ni fyddai unrhyw effaith ar frodyr a chwiorydd iau sy'n byw yng Nghaerdydd ac sy'n mynychu'r un ysgol â'u brodyr a'u chwiorydd hŷn, petai'r ysgol yn dod yn rhan o ddalgylch arall:</p> <p>Maen prawf gordanysgrifio 1a: "Os cyfeiriodd y Cyngor frawd/chwaer hŷn i ysgol arall gan mai'r ysgol honno a arferai fod yn ysgol y dalgylch, os dymuna'r rhiant bydd y Cyngor yn derbyn brodyr/chwiorydd iau i'r ysgol arall honno. Dim ond pan fo'r brawd neu chwaer hŷn yn mynychu'r ysgol arall yn ystod y flwyddyn academaidd y mae'r cais yn ymwneud ag ef y mae hyn yn berthnasol. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r brawd neu chwaer iau fod yn byw yn yr un cyfeiriad (neu gyfeiriad o fewn y dalgylch a oedd yn destun y newid cyn iddo gael ei weithredu) yn Ninas Caerdydd, yr oedd y brawd neu chwaer hŷn yn byw yno ar adeg y cais gwreiddiol."</p> <p>Ni fyddai hyn yn berthnasol i frodyr a chwiorydd sy'n byw tu allan i Gaerdydd. Fodd bynnag, byddai disgyblion sy'n byw tu allan i Gaerdydd yn cadw'r hawl i fynegi dewis i gael eu derbyn i unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.</p>
<ul style="list-style-type: none"> Anabledd 			x		<p>Gallai newidiadau dalgylch arwain at i blentyn fod yn byw yn agosach neu'n bellach i ffwrdd o'u hysgol leol. Asesir anghenion cludiant disgyblion ar sail unigol.</p> <p>Nid yw newidiadau dalgylch yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgybl</p>

	A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
		+	-	Ntrl	Ansic r	
Page 54						newid ysgol os yw'r ysgol y maent yn ei mynychu ar hyn o bryd yn dod yn rhan o ddalgylch arall. Gwneir addasiadau rhesymol i addasu adeiladau ysgol er mwyn diwallu anghenion ymgeiswyr i ysgolion. Fel arall, cyfeirir plant i fynychu darpariaeth amgen.
	• Ailbennu Rhywedd					amh.
	• Priodas a Phartneriaeth Sifil					amh.
	• Beichiogrwydd a Mamolaeth					amh.
	• Hil			x		Ni fyddai'r newidiadau dalgylch yn cael effaith wahaniaethol ar unrhyw grŵp ethnig penodol oherwydd bod darpariaeth addysgol ar gael i bawb, beth bynnag fo'u hil.
	• Crefydd/Cred			x		Nid yw cynigion dalgylchoedd ysgolion cymunedol yn effeithio ar ddalgylchoedd ysgolion ffydd. Mae pob ysgol yr effeithir arni yn uniongyrchol gan y newidiadau a gynigir yn ysgolion cymunedol, ac addysgir ynddynt yn unol â'r cwricwlwm cenedlaethol perthnasol ar gyfer eu hoedran, gan gynnwys addysg bersonol, gymdeithasol, iechyd a chrefyddol.
	• Rhyw					amh.
	• Cyfeiriadedd Rhywiol					amh.
	• Iaith Gymraeg					Mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg wedi cael ei gynnal yn unol â rheoliadau a wnaed o dan Adran 86 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'n cymryd i ystyriaeth y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, gan ymgorffori ffocws ar gynaliadwyedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y rhwydwaith 14-19 lleol a'r ardal ehangach er mwyn hybu mynediad at argaeledd cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn addysg ôl-16.
1.8	Mae'r Cyngor yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r ddinas a'i dinasyddion drwy bartneriaethau cryf <i>Ystyriwch yr effaith bosibl ar</i>					amh.

Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tud 8 o 8
-----------------------	-------------------	------------------------------	-----------------------	-----------

A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
	+	-	Ntrl	Ansic r	
<ul style="list-style-type: none"> atgyfnerthu partneriaethau â byd busnes a'r sector gwirfoddol yr agenda gydweithredu a'r potensial ar gyfer gwasanaethau a rennir, gweithio traws-ffiniol ac arbedion effeithlonrwydd 					

CRYNODEB O ARFARNIAD (tynnwch sylw at effeithiau cadarnhaol a negyddol y polisi / cynllun / project a asesir, gan ddangos sut mae'n cyfrannu at gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y ddinas):

Bwriad y newidiadau arfaethedig i'r dalgylchoedd yw cael effaith gadarnhaol drwy geisio caniatáu i gyfran fwy o blant fynychu eu hysgol ddalgylch leol a darparu disgwyliad rhesymol i deuluoedd sy'n gwneud cais am leoedd ysgol ym mhob dalgylch o gael eu derbyn i'w ysgol ddalgylch leol.

Mae'r trefniadau dalgylch ysgol uwchradd presennol yn creu anfantais i deuluoedd y rhai sy'n gwneud cais am leoedd ysgol uwchradd ar gyfer eu plant yn y rhannau o ddalgylch Ysgol Pencae sydd bellaf o Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr (gan gynnwys rhannau o'r Tyllgoed; Llandaf a Glan-yr-Afon), lle byddai'r pellter i'r ddarpariaeth ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg amgen ar ei uchaf, a lle mae cyfrannau uchel o deuluoedd ar incwm isel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn golygu dosbarthiad tecach o leoedd ysgol uwchradd er y cydnabyddir y gallai olygu cynnydd mewn pellter teithio i'w hysgol ddalgylch i rai plant sy'n byw yn agos iawn at safle Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr. Byddai'r holl ddisgyblion yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y newidiadau yn byw llai na 2 filltir o Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, ac mae llwybrau cerdded diogel ar gael, llawer ohonynt yn cael eu defnyddio eisoes gan blant i gael mynediad i'r ysgolion ffydd ac ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu'r ardal.

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn darparu addysg gynhwysfawr ar gyfer eu disgyblion ac mae mesurau priodol yn eu lle i gefnogi pob un yn y meysydd a nodwyd ar gyfer eu gwella. Bydd yr holl blant yr effeithir arnynt gan y cynnig yn cael mynediad cyfartal i addysg sy'n briodol i'w hoedran a'u cyfnod datblygu waeth beth fo'r holl nodweddion gwarchoddedig, a rhoddir ystyriaeth i 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn golygu dosbarthiad tecach o leoedd ysgol uwchradd, ac yn darparu gwell sicrwydd i rieni o ran y gallu i fynychu eu hysgol ddalgylch leol.

PA GAMAU GWEITHREDU A NODWYD NEU NEWIDIADAU A WNAED I'R POLISI / CYNLLUN / PROJECT O GANLYNIAD I'R ARFARNIAD HWN:

Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tud 9 o 8
-----------------------	-------------------	------------------------------	-----------------------	-----------

Mae'r newidiadau arfaethedig i'r dalgylchoedd ar y pwynt ymgynghori â rhanddeiliaid. Unwaith y bydd canlyniad y broses hon yn hysbys, a phetai unrhyw effaith negyddol yn cael ei chadarnhau, byddai ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i liniaru.

	Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tud 10 o 8
--	--------------------------	----------------------	---------------------------------	-----------------------	------------

Rhan 2: Sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol

		Ydyw	Nac ydyw
2.1	A yw'r cynllun neu'r rhaglen yn gosod y fframwaith ar gyfer caniatâd datblygu yn y dyfodol?		x
2.2	A yw'r cynllun neu raglen yn debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol, cadarnhaol neu negyddol?		x

A oes angen Sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol Llawn?	Oes	Nac oes X
<ul style="list-style-type: none"> ▪ Os ydych wedi ticio 'Ydyw' i gwestiynau 2.1 a 2.2, yna'r ateb yw 'Oes' ▪ Os oes angen Asesiad Sgrinio Amgylcheddol Strategol llawn yna cysylltwch â'r Uned Datblygu Cynaliadwy i'w drefnu (manylion isod) 		

Os oes unrhyw amheuan gennych ynghylch eich atebion i'r cwestiynau uchod o ran yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, yna dylech ymgynghori â'r Uned Datblygu Cynaliadwy drwy ffonio 2087 3228 neu e-bostio datblygucynaliadwy@caerdydd.gov.uk

Rhan 3: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

		Ie	Na	Ddim yn siŵr
3.1	A fydd y cynllun, project neu raglen yn arwain at weithgarwch y gwyddys ei fod yn effeithio ar safle Ewropeaidd, megis Aber Afon Hafren neu Goedwig Ffawydd Caerdydd?		x	
3.2	A fydd y cynllun, project neu raglen yn llywio datblygu tuag at ardal sy'n cynnwys safle Ewropeaidd, megis Aber Afon Hafren neu Goedwig Ffawydd Caerdydd, neu effeithio'n anuniongyrchol ar safle Ewropeaidd?		x	
3.3	A oes angen cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Llawn?		x	

Anfonir manylion y strategaeth at Ecolegydd y Sir ar ôl cwblhau'r broses i benderfynu p'un a oes angen cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Am ragor o wybodaeth ffoniwch 2087 3215 neu e-bostiwch bioamrywiaeth@caerdydd.gov.uk

Atodiad 1 – Gofynion statudol

Mae'n bosibl y bydd yr Offeryn Sgrinio Effaith yn nodi bod angen cynnal asesiadau statudol penodol:

- **Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb:** Mae'r asesiad hwn yn ofynnol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Cydraddoldeb 2011 Llywodraeth Cymru.
- **Bil Datblygu Cynaliadwy:** Bydd y Bil, pan ddaw i rym, yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn un o brif egwyddorion trefniadol y sefydliad. Mae hyn yn golygu bod dyletswydd i ystyried Datblygu Cynaliadwy yn y prosesau gwneud penderfyniadau strategol.
- **Cydamcanu - Cydymdrechu-** Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu un cynllun integredig i gyflawni gofynion statudol amryw ddarnau o ddeddfwriaeth. Gan hynny, rhaid i Gyngor Caerdydd ddangos ei gyfraniad tuag at gynllun integredig Caerdydd; sef "*Beth sy'n Bwysig*".
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:** Mae canllawiau Cymru ar Ddeddf Plant 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn:** Mae'r egwyddorion yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried annibyniaeth, cyfranogi, gofal, ymglyflawni ac urddas.
- **Mesur y Gymraeg 2011:** Mae'r mesur yn nodi statws swyddogol y Gymraeg, penodi Comisiynydd y Gymraeg, a'r rhyddid i siarad Gymraeg.
- **Asesu'r Effaith ar Iechyd:** (HIA) Mae'r asesiad hwn yn ystyried polisiau, rhaglenni neu brojectau o ran eu heffeithiau posibl ar iechyd poblogaeth
- **Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol Strategol:** Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol yn Gyfarwydddeb Ewropeaidd ar gyfer cynlluniau, rhaglenni a pholisïau sydd â goblygiadau o ran defnydd tir ac sy'n cael effeithiau amgylcheddol sylweddol..
- **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:** Mae Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) (Diwygio) 2007 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer cynlluniau defnydd tir.

Oddi wrth: Davies-Warner, Kirsty (Cyngh.)

Anfonwyd: 11 Chwefror 2016 12:40

I: Ymateb ysgolion ymatebysgolion@caerdydd.gov.uk

Pwnc: Ymgynghoriad Dalgylchoedd cyfrwng Cymraeg Cynradd ac Uwchradd: • Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf • Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr • Ysgol Pencae

Ymateb i'r ymgynghoriad:

Mae'r cynigion hyn yn ymddangos yn gwbl resymol, a byddwn yn eu cefnogi ar yr amod bod teuluoedd sydd eisoes ag un plentyn mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cael y dewis i anfon brodyr a chwiorydd i'r un ysgol. Nid yn unig y mae'n bwysig er hwylustod y rhieni, ond hefyd i'r ysgol ac ar gyfer cydlyniant cymunedol. Rydym yn gwybod bod yr ysgolion sy'n perfformio orau yn aml gyda CRhA cryf, ond hefyd gyda chysylltiadau da â rhieni a'r gymuned. Po fwyaf y mae teulu yn buddsoddi mewn ysgol, y mwyaf tebygol y maent o gymryd rhan ym mywyd yr ysgol, ac addysg eu plant. Mae hyn yn dod yn fwy o broblem mewn teulu gyda 3 o blant (1 mewn ysgol gynradd a 2 mewn ysgolion ar wahân) lle, yn ddamcaniaethol, y gallai rheini fod angen ymgysylltu â thair ysgol.

Mae'r cynigion hyn yn fwy tebygol o gael eu croesawu gan rieni os gwneir y consesiwn hwn.

Dymuniadau gorau

Kirsty Davies-Warner

Cynghorydd Llandaf a Danescourt

E: kirsty.davies-warner@caerdydd.gov.uk T: 07900692898

Faint, illegible text at the top of the page, possibly a header or introductory paragraph.

Main body of faint, illegible text, appearing to be several lines of a document.

Faint text at the bottom right of the page, possibly a signature or date.

Faint text centered at the bottom of the page, possibly a footer or page number.

Oddi wrth: Davies, Alun (Ysgol Gyfun Glantaf)

Anfonwyd: 23 Chwefror2016 12:03

I: Ymateb ysgolion <ymatebysgolion@caerdydd.gov.uk>

Pwnc: Ymgynghoriad Dalgylchoedd CC Cynradd ac Uwchradd

Hoffwn gefnogi'r cynnig i adleoli dalgylch Ysgol Gynradd Gymraeg Pencae o ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr i ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Teimlaf fod hyn yn gam synhwyrol gan gydnabod dyletswydd i sicrhau dosbarthiad rhesymol o ddisgyblion yn ôl lleoedd gwag ac er mwyn sicrhau defnydd priodol ac effeithiol o adnoddau'r Cyngor sydd eisoes mewn bod. Nid yw cynlluniau blaenorol wedi cyflawni'r nod yma ond hyderaf y byddai'r cynnig hwn yn annerch y broblem ac yn galluogi'r ysgolion a enwir i ddatblygu a chwrdd a'r galw cynyddol am Addysg Gymraeg.

Hoffwn gefnogi'r cynnig i adleoli dalgylch Ysgol Pencae o ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr i ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Teimlaf fod y cynnig hwn yn rhesymol a hefyd yn cydnabod y ddyletswydd i sicrhau dosbarthiad rhesymol o ddisgyblion yn ôl lleoedd gwag tra'r un pryd yn sicrhau defnydd priodol ac effeithiol o adnoddau'r Cyngor sydd ar gael. Ni lwyddodd y Cynllun Trefniadaeth ysgolion blaenorol i gyflawni'r nod hwn ar bwynt ei weithredu. Fodd bynnag, mae'r cynnig presennol yn ymdrin â'r mater hwn a bydd, mi gredaf, yn caniatáu i'r cyfan o'r ysgolion a enwir ddatblygu a chwrdd â'r twf cynyddol mewn galw am addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd. Bydd tystiolaeth gefnogol lawn i'r derbyniadau, i ddangos fod ein nifer derbyn wedi bod llawer yn is na chapasiti, a'i fod yn parhau felly, ers tynnu'r ysgolion cynradd bwydo o'n dalgylch yn 2012 er mwyn sefydlu Ysgol Gyfun Bro Edern. Roedd bob amser yn rhan annatod o Gynllun Trefniadaeth Ysgolion y Cyngor bod y diffyg hwn yn nifer y myfyrwyr a grëwyd yng Nglantaf yn cael ei leddfu gan y twf yn niferoedd dalgylch Plasmawr ac ailddyrrannu dalgylchoedd. Er fy mod yn deall y bydd chwaer ysgol yn amharod i golli ysgol gynradd bwydo sy'n 'cyflawni'n uchel', yr wyf yn ofni y byddai ei chadw yn anochel yn arwain at i fyfyrwyr gael eu colli i'r sector CC yn ei gyfanrwydd, gwariant cyfalaf y gellid ei osgoi, a chreu lleoedd gwag heb fod angen yn Ysgol Glantaf. Er nad wyf yn teimlo y gall y naill ysgol na'r llall bledio amddifadedd cymdeithasol sylweddol, hoffwn nodi bod y % o brydau ysgol am ddim yng Nglantaf yn uwch na'r ganran ym Mhplasmawr, a bod trosglwyddo disgyblion o Bencae, ymhell o greu anghydbwysedd cymdeithasol rhwng yr ysgolion, mewn gwirionedd yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Rwyf wedi pwysleisio'n gyson bod addysg cyfrwng Cymraeg yn gynhwysfawr a bod angen iddi ddarparu ar gyfer pob dysgwr. Gallaf ragweld amser pan fydd angen rhoi ystyriaeth bellach i ddalgylchoedd y tair ysgol er

mwyn darparu ar gyfer y galw, ac ystyriaif fod gosod buddiant personol pur o'r neilltu yn hanfodol i ni fel Penaethiaid, mewn cydweithrediad â'r Cyngor, er mwyn cynllunio'n ddigonol ar gyfer lleoedd yn y dyfodol a datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas. Credaf bod y cynnig presennol angen yr un weledigaeth i sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth yn y tymor hir.

Yn gywir

Alun G. Davies

Alun G. Davies

Pennaeth / Headteacher

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 02920838804

**Ymgynghoriad ar gyfer Dalgylch Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfrwng
Cymraeg / Welsh-medium Primary and Secondary Schools Catchment Area**

28 Chwefror / February 2016

Michele Duddridge Hossain
Rheolwr Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion
Ystafell 219, Neuadd y Sir
Caerdydd CF10 4UW

Annwyl Michele

Fel Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, hoffwn fynegi cefnogaeth lawn y Corff i'r cynigion presennol i drosglwyddo dalgylch Ysgol Pencae o ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr i Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

Fel Corff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, hoffem gefnogi'r cynnig i adleoli dalgylch Ysgol Gynradd Gymraeg Pencae o ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr i ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Teimlwn bod hyn yn gam synhwyrol gan gydnabod dyletswydd i sicrhau dosbarthiad rhesymol o ddisgyblion yn ôl y lleoedd gwag sydd ar gael (gweler isod), ac er mwyn sicrhau defnydd priodol ac effeithiol o adnoddau cyfredol y Cyngor; adnoddau sydd, fel y gwyddoch, eisoes mewn bod.

Fel Corff Llywodraethu, teimlwn fod y cynnig yn rhesymol a hefyd yn cydnabod y ddyletswydd i sicrhau dosbarthiad rhesymol o ddisgyblion yn ôl lleoedd gwag (gweler isod) tra'r un pryd yn sicrhau defnydd priodol ac effeithiol o adnoddau'r Cyngor sydd ar gael.

Yn fy llythyr at y Cyfarwyddwr Addysg ar 17 Gorffennaf 2015, amlinellais yn eithaf manwl bryderon Corff Llywodraethu Glantaf a oedd yn ymwneud â dyrannu disgyblion a dalgylchoedd. I grynhoi, pan gafodd ei sefydlu, cymerodd Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern fel ei dalgylch yr ardal i'r dwyrain o'r afon, a oedd gynt yn bwydo Glantaf. Roedd hyn, o reidrwydd, ar draul cyn-ddalgylch Glantaf, ac fe'i cyflawnwyd i bob pwrpas drwy dynnu allan dwy ysgol bresennol gyda 2FE yr un o ddalgylch Glantaf. Nid oedd, ac nid oes, gan Ysgol Glantaf wrthwynebiad i'r ad-drefnu hwn. Fodd bynnag, effaith y gostyngiad hwn o 4FE o 2012 ymlaen fu i adael Glantaf yn dibynnu ar dderbyniadau o blant o ddalgylchoedd cynradd Melin Gruffydd, Y Wern, Mynydd Bychan a Glan Morfa. Golygai hyn bod Glantaf yn 2013 yn disgwyl derbyn 5FE (h.y. tua 150 o ddisgyblion) tra bod ganddi'r chapasiti i dderbyn 8FE (tua 240 o ddisgyblion). Hefyd roedd y twf tebygol yn y dyfodol agos yn golygu na fyddai'r ffigur hwn yn fwy na 6FE. Er bod Glantaf i dderbyn disgyblion o'r ysgol newydd yng Nglan Ceubal, nid agorwyd hon tan 2009 gyda'r plant cyntaf yn symud i lefel uwchradd yn 2017, a hyd yn oed wedyn mewn niferoedd o lai na 10. Mewn ymateb i'r sefyllfa hon, cynigiodd yr Awdurdod y dylai dalgylch Glantaf gael ei ymestyn i gynnwys y cyfan o ddalgylch Pwll Coch a oedd ar y pryd yn bwydo Plasmawr. Roedd hwn yn awgrym synhwyrol ond fel y gwyddoch, ac nid af i fanylion yma (gweler fy llythyr blaenorol at

y Cyfarwyddwr), yn anffodus arweiniodd llythyrau anghywir a anfonwyd gan y Cyngor a'r methiant i ddefnyddio'r polisi derbyn yn llym at lawer o ddryswch a phrinder o ran dyrannu disgyblion.

Ym mis Gorffennaf 2015, daeth canlyniadau hyn oll i'r amlwg. Unwaith eto, mae'r ffigyrau yn hysbys i Swyddogion 'Derbyn' y Cyngor, felly ni wnaif eu hailadrodd; yr hyn y maent yn ei danlinellu, a'r rhesymeg ar gyfer yr ymgynghoriad presennol, yw ei bod yn amlwg yn angenrheidiol ailedrych ar y dalgylchoedd a bennwyd i ysgolion Glantaf a Phlasmawr.

Yn fy llythyr dyddiedig 17 Gorffennaf 2015, amlinellais ddau gam yr oeddem, fel Corff Llywodraethu, yn meddwl oedd yn briodol er mwyn lliniaru a chywiro'r anghydbwysedd. Yn gyntaf, rhoi arwydd cryf i rieni Pwll Coch y dylai'r rhan fwyaf o blant sy'n gadael yr ysgol honno, fel y nodir yn y trefniadau dalgylch diwygiedig, drosglwyddo i Ysgol Glantaf lle mae lleoedd ar eu cyfer. Yn ail, trosglwyddo dalgylch Pencae o Blasmawr i Lantaf. Trwy wneud hyn, bydd dalgylch Glantaf yn cael ei gynyddu a'i adfer i 8FE (1FE o Bwll Coch ac 1FE o Bencae) a bydd y niferoedd sy'n ceisio mynediad i Blasmawr yn cael eu lleihau i'r hyn sy'n agos i gapasiti'r ysgol (h.y. lleihau o 230 i oddeutu 170, drwy cael gwared â 2FE i alluogi Plasmawr i dderbyn yr 20 o blant ychwanegol a ddisgwylir o'r niferoedd cynyddol yn Nant Caerau).

Mae'r cynnig presennol yn ymdrin yn benodol â'r ail awgrym hwn a bydd, yn ein barn ni, yn caniatáu i bob un o'r ysgolion a enwyd ddatblygu a chwrdd â'r twf parhaus mewn galw am addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd.

Yn gywir

Hefin

Dr Hefin Jones

Senior Lecturer / Uwch Ddarlithydd

Deputy Division Leader / Dirprwy Arweinydd Adran

Deon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol / Dean of Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Organisms and Environment Division / Adran Organebau ac Amgylchedd

School of Biosciences / Ysgol y Biowyddorau

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

CARDIFF / CAERDYDD

CF10 3AX

e-mail / e-bost: jonesth@cardiff.ac.uk jonesth@caerdydd.ac.uk

Tel: Ffôn: +44 (0)2920 875357

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen
Y Tyllgoed
Caerdydd
CF5 3PZ

Ffôn : (029) 20 405499
Ffacs: (029) 20 405496

Pennaeth: Mr John D Hayes



Pentrebane Road
Fairwater
Cardiff
CF5 3PZ

Tel: (029) 20 405499
Fax: (029) 20 405496

Headteacher: Mr John D Hayes

Mr N. Batchelor

Cyfarwyddwr Addysg

Neuadd y Sir

Caerdydd

Chwefror 23ain, 2016

Annwyl Nick

Rwy'n ysgrifennu atoch i wrthwynebu yn y modd cryfaf posibl y cynnig i symud dalgylch Ysgol Pencae o ddalgylch Ysgol Plasmawr i ddalgylch Ysgol Glantaf.

Wrth i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg barhau i dyfu ac wrth i Gynlluniau Datblygu Lleol Caerdydd ddod yn realiti, mae'n hanfodol bod dalgylchoedd y tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cael eu hystyried yn y tymor canolig i'r tymor hir, yn hytrach na cheisio dod o hyd i ateb byrdymor, hawdd, byrweledol i ymdrin â'r anghydbwysedd bach presennol yn nifer y disgyblion, a allai fod yn hynod niweidiol i un ysgol neu'r llall, ac a allai achosi problemau hirhoedlog i etifeddiaeth addysgol y cyfan o Gaerdydd.

Cytunwyd ar egwyddorion clir yn ystod y cam cynllunio a arweiniodd at agor Ysgol Plasmawr yn 1998, a oedd yn cynnwys sicrhau bod dalgylchoedd Plasmawr a Glantaf mor debyg â phosibl o ran dangosyddion cymdeithasol-economaidd h.y. ystyriwyd ei bod yn hanfodol bod gan bob ysgol gymysgedd cymdeithasol teg a chyfiawn er mwyn sicrhau fod ganddynt gyfle cyfartal i ffynnu a llwyddo.

Ar hyn o bryd, mae gan Blasmawr a Glantaf fel ei gilydd ddalgylch cymdeithasol-economaidd cymharol amrywiol fel y gwelir yn nhabl A isod. Byddai symud Ysgol Pencae i ddalgylch Ysgol Glantaf yn newid cydbwysedd cymdeithasol-economaidd y ddwy ysgol a byddai'n andwylol i gymuned ysgol Plasmawr.

Tabl A: % prydau ysgol am ddim fesul dalgylch ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg fel dangosydd o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd (2015).

Ysgol dalgylch Plasmawr	% prydau ysgol am ddim
Nant Caerau	28.80%
Pencae	2.70%
Coed Y Gof	24.20%
Gwaelod y Garth	5.40%
Creigiau	3.20%
Treganna	3.70%

Ysgol dalgylch Glantaf	% prydau ysgol am ddim
Melin Gruffydd	3.70%
Y Wern	4.90%
Pwll Coch	7.10%
Mynydd Bychan	9.80%
Glan Morfa	28.30%

Cyngor Sir Caerdydd
Cardiff County Council



Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen
Y Tyllgoed
Caerdydd
CF5 3PZ

Ffôn : (029) 20 405499
Ffacs: (029) 20 405496

Pennaeth: Mr John D Hayes



Pentrebaen Road
Fairwater
Cardiff
CF5 3PZ

Tel: (029) 20 405499
Fax: (029) 20 405496

Headteacher: Mr John D Hayes

Mae'r cynnig ymgynghori yn ateb hawdd, tymor byr, ymarferol wedi'i seilio'n unig ar agosrwydd daearyddol dalgylch Pencae i ddalgylch Glantaf. Mewn termau damcaniaethol yn unig, hwn yw'r ateb mwyaf rhesymegol; fodd bynnag, mae'r cynnig yn ddiffygiol o ran egwyddorion addysgol a byddai'n cael effaith barhaol ar addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas. Mae Ysgol Pencae yn ysgol gynradd sy'n perfformio'n dda, gan elwa o ddalgylch ffyniannus a chefnog. Pe bai Pencae yn symud i ardal dalgylch Glantaf, byddai'n cryfhau'r hyn sydd eisoes yn ysgol uwchradd sy'n perfformio'n eithriadol o uchel a llwyddiannus, a byddai hyn yn andwyol i Ysgol Plasmawr. Mae safonau cyrhaeddiad Plasmawr yn debygol o ddiodef, a byddai ein cyfraddau cadw chweched dosbarth yn lleihau oherwydd byddem yn flynyddol yn colli oddeutu 30 o ddisgyblion sydd fel arfer yn cyflawni'n dda yng Nghyfnod Allweddol 4 ac sydd yn hanesyddol wedi symud ymlaen i'r chweched dosbarth ym Mhlasmawr. Mae'r cynnig difeddwl hwn yn gosod Plasmawr mewn sefyllfa lle mae'n rhwym o fethu.

Rwy'n hynod falch o record academaidd gref Plasmawr (yr ysgol sydd wedi perfformio orau yng Nghaerdydd ar Safon Uwch dros y tair blynedd diwethaf) a'n lles rhagorol ac ethos cynhwysol sydd wedi eu hadeiladu dros y 18 mlynedd diwethaf. Cryfder ein cymuned ysgol yw'r ffaith ein bod yn ysgol uwchradd mor gynhwysfawr sy'n gwasanaethu'r cyfan o orllewin Caerdydd, gan gynnwys rhai o'r wardiau mwyaf difreintiedig a rhai o'r wardiau mwyaf cefnog yng Nghaerdydd. Bydd symud Pencae o'n dalgylch, sef un o'n ysgolion cynradd dalgylch sylfaenol, yn polareiddio'r gwahaniaethau rhwng Plasmawr a Glantaf, gan droi Glantaf yn ysgol llawer mwy deniadol i ddarpar rieni.

Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei gymeradwyo, byddai yn fy marn i yn creu ysgol cyfrwng Cymraeg elitaidd mewn lleoliad canolog, sy'n gwasanaethu rhai o'r wardiau mwyaf cefnog yng Nghaerdydd, a byddai'n arwain at i Blasmawr wasanaethu'n bennaf gyrion gorllewinol Caerdydd, sy'n cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf heriol a chymdeithasol-ddifreintiedig yng Nghaerdydd. Byddai'r penderfyniad hwn yn herio egwyddorion sylfaenol sefydlu Plasmawr yn gyfartal i Lantaf o ran natur y dalgylchoedd. Yn realistig, byddai'r penderfyniad hwn pe derbynid ef yn arwain at i rieni uchelgeisiol geisio symud i fyw i ardal ddalgylch Glantaf, gan waethygu'r sefyllfa anodd a fyddai'n wynebu Plasmawr, a chreu mewn gwirionedd ysgol cyfrwng Cymraeg sy'n cyfateb i Ysgol Uwchradd Caerdydd yng nghanol Caerdydd. Dylid ar bob cyfrif osgoi polareiddio ysgolion cyfrwng Cymraeg, a'r flaenoriaeth ddylai fod chwilio'n weithredol am atebion tymor byr eraill sy'n llawer mwy cadarnhaol.

Bydd symud Ysgol Pencae i mewn i ddalgylch Glantaf yn creu ei phroblem capasiti ei hun i Lantaf. Mae nifer y dosbarthiadau mynediad sy'n bwydo Glantaf yn awgrymu y bydd mewn cyfnod byr o amser wedi mynd ymhell tu draw i'w nifer derbyn ei hun o 8 dosbarth mynediad (Tabl B). Ni allaf ddeall sut y bydd symud Pencae i ddalgylch Glantaf yn datrys unrhyw broblemau capasiti tymor canolig i hir i addysg cyfrwng Cymraeg yn y ddinas, ac yn wir ni ellir ond ei weld fel mesur tymor byr a fydd yn creu ei set ei hun o broblemau, y bydd rhaid ymdrin â hwy.

Cyngor Sir Caerdydd
Cardiff County Council



Page 66



Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen
Y Tyllgoed
Caerdydd
CF5 3PZ



Pentrebane Road
Fairwater
Cardiff
CF5 3PZ

Ffôn : (029) 20 405499
Ffacs: (029) 20 405496

Tel: (029) 20 405499
Fax: (029) 20 405496

Pennaeth: Mr John D Hayes

Headteacher: Mr John D Hayes

Tabl B: Ardaloedd dalgylch ym Medi 2017 **pe bai** Pencae yn symud i ddalgylch Glantaf gan gynnwys dosbarthiadau mynediad (f/e) posibl.

	F/E	Prydau ysgol am ddim
Plasmawr (6 f/e)		
Nant Caerau	1	28.80%
Coed Y Gof	1.5	24.20%
Gwaelod y Garth	0.7	5.40%
Creigiau	0.8	3.20%
Treganna	2	3.70%
	6.0	

	F/E	Prydau ysgol am ddim
Glantaf (8 f/e)		
Melin Gruffydd	2	3.70%
Y Wern	2/3	4.90%
Pwll Coch	2	7.10%
Mynydd Bychan	1	9.80%
Glan Morfa	1	28.30%
Pencae	1	2.70%
Glan Ceubal	1	32.60%
	10/11	

Fy nghynnig i fyddai cadw'r ddarpariaeth dalgylch gyfredol a newid nifer derbyn Plasmawr dros dro i 210 (7 dosbarth mynediad) a sicrhau bod Glantaf yn cael ei chefnogi nes bod niferoedd ei disgyblion yn tyfu drwy'r sector cynradd o fewn ei dalgylch presennol. Crynhoir y materion sy'n codi o'r cynnig hwn yn y tabl isod:

Cadarnhaol +	Negyddol -
<p>Dim aflonyddwch tymor byr pellach i ddalgylchoedd hyd nes y gwneir penderfyniad ar faterion dalgylchoedd tymor canolig i hir i'r tair ysgol uwchradd CC.</p> <p>Yn caniatáu digon o amser i gynllunio'n gywir ar gyfer twf yn y dyfodol mewn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg gan gymryd i ystyriaeth gynlluniau datblygu tai newydd, ayb.</p> <p>Dim angen am benderfyniadau difeddwl adweithiol a allai gael effaith hir dymor ar addysg cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Yn caniatáu ar gyfer atebion adeiladu capasiti</p>	<p>Angen ateb adeiladu capasiti i ddarparu ar gyfer twf dros dro mewn niferoedd a allai fod â rhywfaint o oblygiadau cost e.e. datblygu canolfan hamdden Y Tyllgoed / canolfan Ieuentid Waterhall.</p>

Cyngor Sir Caerdydd
Cardiff County Council



Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen
Y Tyllgoed
Caerdydd
CF5 3PZ

Ffôn : (029) 20 405499
Ffacs: (029) 20 405496

Pennaeth: Mr John D Hayes



Pentrebaen Road
Fairwater
Cardiff
CF5 3PZ

Tel: (029) 20 405499
Fax: (029) 20 405496

Headteacher: Mr John D Hayes

o ran rhannu cyfleusterau gyda chanolfan
hamdden leol a/neu Ganolfan Ieuencid
Waterhall.

Mae'n cynnal boddhad rhieni gydol yr amser.

I gloi, byddwn yn eich hannog i feddwl nid yn unig o ran yr enillion tymor byr, cyflym a fydd yn dod ag ôl-ffeithiau enfawr yn eu sgil, ond yn hytrach i oedi a chymryd golwg tymor canolig i hir ar dwf addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd.

Yn gywir

John



Cyngor Sir Caerdydd
Cardiff County Council

Page 68



Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen
Y Tyllgoed
Caerdydd
CF5 3PZ

Ffôn : (029) 20 405499
Ffacs: (029) 20 405496

Pennaeth: Mr John D Hayes



Pentrebaen Road
Fairwater
Cardiff
CF5 3PZ

Tel: (029) 20 405499
Fax: (029) 20 405496

Headteacher: Mr John D Hayes

Mr N. Batchelor

Cyfarwyddwr Addysg

Awdurdod Dinas Caerdydd

Chwefror 25ain, 2016

Annwyl Mr Batchelor

Dymunwn fynegi ein gwrthwynebiad cryf i'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Pencae o ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr i ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

Mae'r ymgynghoriad yn nodi'r canlynol:

'Mae'r rhagfynegiadau'n dangos y bydd y galw am lefydd cyfrwng Cymraeg o fewn dalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn fwy na nifer y llefydd sydd ar gael er mwyn dechrau yn yr ysgol ym mis Medi 2017, tra bod y galw am lefydd yn dalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn llai na nifer y llefydd sydd ar gynnig yn yr ysgol. '

Gan nad oes data ar gael i ategu'r datganiad hwn fel rhan o'r ymgynghoriad, mae'n anodd cadarnhau faint yn fwy o alw y bydd yna am le yn Ysgol Glantaf na'i chapasiti i dderbyn mwy o ddisgyblion a phryd y bydd hyn yn debygol o ddigwydd. Ar sail nifer y dosbarthiadau y flwyddyn a fydd yn cael eu derbyn i Ysgol Glantaf, efallai y bydd yn uwch na'r nifer safonol yn 2017, ac os nad bryd hynny, bydd yn debygol o ddigwydd yn 2018.

Mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd y mwyafrif helaeth o ddisgyblion o Ysgol Pwll Coch yn trosglwyddo i Ysgol Glantaf ym mis Medi 2016. Bydd hyn yn sefydlu Pwll Coch yn gadarn fel un o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo Glantaf. Yn absenoldeb data ategol, teimlwn ei bod yn rhesymol gofyn a yw'r twf a ragwelir yn nifer y disgyblion yn Glantaf (yn enwedig mewn perthynas â dau o'i ysgolion bwydo - Glan Ceubal a Pwll Coch) wedi'i ystyried yn llawn?

Yn sgil y galw cynyddol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws Caerdydd, rydym yn awyddus i gael sicrwydd bod yr awdurdod yn cynllunio lleoedd yn y sector uwchradd mewn ffordd strategol sy'n edrych y tu hwnt i'r senario tymor byr a ragwelir ar gyfer 2017. Rydym yn cydnabod bod cynllunio o'r fath yn arwain at nifer o heriau, yn enwedig oherwydd y newidiadau demograffig sylweddol a'r twf a ragwelir yn y boblogaeth mewn rhannau o'r ddinas yn ystod y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, mae gennym bryderon difrifol am y risgiau sy'n gysylltiedig â cheisio dod o hyd i ateb byrdymor i un agwedd ar yr her - hyd yn oed os yw'n ymddangos yn ateb syml. Rydym yn eich annog i ohirio unrhyw benderfyniadau nes bod asesiad mwy strategol

Cyngor Sir Caerdydd
Cardiff County Council



Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen
Y Tyllgoed
Caerdydd
CF5 3PZ

Ffôn : (029) 20 405499
Ffacs: (029) 20 405496

Pennaeth: Mr John D Hayes



Pentrebane Road
Fairwater
Cardiff
CF5 3PZ

Tel: (029) 20 405499
Fax: (029) 20 405496

Headteacher: Mr John D Hayes

tymor canolig i hirdymor yn cael ei wneud o'r capasiti a'r galw a ragwelir. Byddem yn disgwyl i'r asesiad hwn ystyried capasiti Ysgol Bro Edern yn ogystal ag Ysgol Plasmawr a Glantaf. Nid yw'r ymgynghoriad yn cyfeirio at y ffordd y mae capasiti/galw a ragwelir yn debygol o effeithio ar ystyriaethau ehangach sy'n ymwneud â gweledigaeth yr awdurdod o ran cyflawni darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn modd strategol.

Wrth i Ysgol Plasmawr barhau i dyfu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'n galonogol gweld bod yr ysgol wedi gallu cadw at ei nod sylfaenol o geisio rhagoriaeth yn ei holl ymdrechion a'i hegwyddor o feithrin disgwyliadau uchel mewn amgylchedd cynhwysol sydd wrth wraidd ei gallu i sicrhau'r nod hwn. Cyflawnir hyn trwy ddarparu amgylchedd ysgogol a gofalgwr i ddisgyblion o amrywiaeth o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol i ddysgu ochr yn ochr â'i gilydd. Rydym yn pryderu y byddai symud Ysgol Pencae i ddalgylch Glantaf yn effeithio'n niweidiol ar wead economaidd-gymdeithasol Plasmawr a byddai hefyd goblygiadau pellgyrhaeddol i ddemograffeg ehangach darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd. Mae Ysgol Pencae yn ysgol gynradd sy'n perfformio'n dda ac sy'n elwa o ddalgylch ffyniannus a chefnog. Mae perygl y byddai'r cynnig dan sylw yn atgyfnerthu statws Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, ysgol sydd eisoes yn llwyddiannus ac yn perfformio'n dda, fel canolfan ragoriaeth i rieni uchelgeisiol, er anfantais i Ysgol Plasmawr ac Ysgol Bro Edern. Mae goblygiadau posib datblygiad o'r fath, yn ein barn ni, yn arwyddocaol ac yn rhychwantu amrywiaeth o ystyriaethau fel codi safonau ysgolion, y gallu i gyflwyno darpariaeth ôl-16 effeithiol a theg, ac yn hyrwyddo ymdeimlad o ymwybyddiaeth ddinesig a chyfrifoldeb yn ein disgyblion.

Er y gellid dadlau bod rhywfaint o segmentiad economaidd-gymdeithasol bron yn anochel yn y sector ysgolion uwchradd mewn dinas fel Caerdydd, yn ein barn ni, mae'r sector cyfrwng Cymraeg yn rhoi'r cyfle i'r awdurdod gynllunio darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer ysgolion mewn ffordd a fydd yn lleihau'r risg o bolareiddio economaidd-gymdeithasol. Byddai edrych ar yr her bresennol fel cyfle i fireinio'r dull strategol hwn yn cyd-fynd â gweledigaeth yr Athro Donaldson yn *Dyfodol Llwyddiannus* yn ein barn ni, lle mae dysgwyr galluog ac uchelgeisiol hefyd i'w hystyried yn aelodau o'r gymdeithas amrywiol.

Felly, rydym yn eich annog i oedi ac ystyried goblygiadau tymor canolig a hirdymor y cynnig i addasu dalgylch presennol Ysgol Pencae. Rydym yn gwbl ymwybodol o'r angen i ystyried dewisiadau eraill yn y tymor byr er mwyn lleddfu'r pwysau ar leoedd yn 2017, a byddem yn fwy na pharod i gymryd rhan mewn trafodaethau gyda chi a phartneriaid eraill i ystyried atebion dros dro na fyddai'n arwain at addasu dalgylch ysgolion.

Cyngor Sir Caerdydd
Cardiff County Council



Page 70



Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen
Y Tyllgoed
Caerdydd
CF5 3PZ



Pentrebane Road
Fairwater
Cardiff
CF5 3PZ

Ffôn : (029) 20 405499
Ffacs: (029) 20 405496

Tel: (029) 20 405499
Fax: (029) 20 405496

Pennaeth: Mr John D Hayes

Headteacher: Mr John D Hayes

Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â mynd ar drywydd y cynnig presennol yn sylweddol yn ein barn ni. Ar ben hynny, byddai rhoi'r cynnig ar waith yn golygu colli cyfle o ran cynllunio'n strategol ar gyfer sector cyfrwng Cymraeg sy'n ffynnu yn y brifddinas.

Yn gywir

Mair Parry-Jones

Cadeirydd Llywodraethwyr

(ar ran y Corff Llywodraethol)



Cyngor Sir Caerdydd
Cardiff County Council





The following information is provided for your information. It is intended to provide you with a general overview of the information that is available to you. It is not intended to provide you with a detailed description of the information that is available to you. It is not intended to provide you with a detailed description of the information that is available to you.

For more information, please contact the appropriate authority. The information is provided for your information. It is intended to provide you with a general overview of the information that is available to you. It is not intended to provide you with a detailed description of the information that is available to you.

From: Thomas, Richard (Ysgol Pencae)
Sent: 29 February 2016 10:42
To: School Responses
Subject: Ymateb Ysgol Pencae

Bore da,

Parthed newid talgylch Ysgol Pencae.

Dyma fy sylwadau fel Pennaeth Ysgol Pencae:

1. Siom oedd cael fy hysbysu fod newid talgylchoedd ar droed – dau ddiwrnod cyn i'r ymgynghoriad fynd i'r rhieni/cyhoedd! Dylsw'n i a'r Corff Llywodraethol fod wedi ein hysbysu o hyn fisoedd o flaen llaw er mwyn gallu trafod y peth o ddifrif dros gyfnod o amser. Mae hyn wedi achosi drwg deimlad yng nghymuned yr ysgol ac yn edrych yn wael arnaf i fel Pennaeth ac ar Gorff Llywodraethol yr ysgol.
2. Beth yw cynllun HIR DYMOR y Sir parthed talgylchoedd Ysgol Pencae ynghyd ag ysgolion Cymraeg eraill y brifddinas? NID wyf am i'r talgylchoedd newid ymhen dwy neu dair blynedd. Hoffwn i Swyddogion y Sir ddod i drafod hyn gydag aelodau Corff Llywodraethol Ysgol Pencae yn ddiymdroi.
3. Mae gen i bryder bod Ysgol Glantaf yn mynd i fod yn ysgol elitiadd Gymreig gydag Ysgol Plawmawr yn colli carfan o ddisgyblion sy'n cael cefnogaeth dda gan eu rhieni. Mae'r cymysgedd cymdeithasol mor bwysig er lles ac addysg pob disgybl ac nid wyf am i Ysgol Plasmawr ddatblygu i fod yn ysgol 'anodd' sy'n gwasanaethu talchylchoedd sy'n llai difreintiedig ac o ganlyniad dan anfantais.
4. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ofidus iawn i'r rhieni, yn enwedig rhieni Blynyddoedd 3 – 5 presennol gan ei fod yn gloygu fod y dosbarthiadau yn cael eu rhannu hy bydd ffrindiau'r dosbarth yn cael eu gwahanu oherwydd bod rhieni'n penderfynu anfon eu plant i'r ysgol uwchradd sydd fwyaf addas a fwyaf cyfleus iddyn nhw. Mae'r cyfnod pontio hwn yn gyfnod emosiynol dwys i'r plant yn ystod y cyfnod hwn ac felly gall hyn gael effaith niweidiol ar y disgyblion.

Ma Ysgol Plasmawr ac Ysgol Glantaf yn ddwy ysgol dda iawn ac yn gaffaeliad i system addysg Sir Caerdydd. Byddaf fel Pennaeth Ysgol Pencae yn cefnogi'r ddwy ysgol ac am sicrhay fod disgyblion Ysgol Pencae yn datblygu ar y syflaen grêf maen nhw wedi ei gael yn yr ysgol hon.

Gyda diolch,

R Richard Thomas
Pennaeth
Ysgol Pencae

Oddi wrth: Tiplady, Daniel [mailto:dtiplady@cardiffmet.ac.uk]

Anfonwyd: 01 Mawrth 2016 09:26

I: Ymateb ysgolion <ymatebysgolion@caerdydd.gov.uk>

Pwnc: Ymgynghoriad: Dalgylchoedd cyfrwng Cymraeg Cynradd ac Uwchradd

Ymgynghoriad: Dalgylchoedd cyfrwng Cymraeg Cynradd ac Uwchradd

Annwyl Syr/Madam,

Er mwyn llunio ymateb i'r ymgynghoriad hwn, cyfarfu aelodau o Gorff Llywodraethu Ysgol Pencae gyda'r rhiant gynrychiolwyr o bob dosbarth, aelodau o staff, a hefyd ystyriwyd yr ymatebion a wnaed yn uniongyrchol gan rieni i'r Ysgol.

Mae'r Corff Llywodraethu yn falch o gydnabod na fydd y newid arfaethedig hwn yn y dalgylch yn effeithio'n ormodol ar y cyfleoedd academiaidd neu allgyrsiol sydd ar gael i'n disgyblion. Mae Ysgol Pencae yn ffodus iawn i fod wedi'i lleoli yn agos at ddwy ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel, y ddwy ohonynt yn cynnig addysg uwchradd o'r safon uchaf.

Fodd bynnag, mae gan y Corff Llywodraethu rai pryderon ynghylch y newid arfaethedig y mae angen rhoi sylw iddynt fel mater o frys. Byddem felly'n gwerthfawrogi pe gallai'r Cyngor ymateb i'r cwestiynau a nodwyd gennym isod:

1. Beth yw cynlluniau tymor canolig i hir y Cyngor i ddelio â thwf mewn addysg cyfrwng Cymraeg?

Nid yw'n ymddangos bod gan y Cyngor dull strategol o ymdrin â'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd. Ymddengys bod y penderfyniad i newid dalgylchoedd yn fesur adweithiol i ddelio gydag un ysgol sydd mae'n ymddangos wedi'i gordanysgrifio, tra bod gan y llall rywfaint o gapasiti. Bydd penderfyniad a wneir yn gyfan gwbl ar gapasiti tymor byr bob amser yn broblemus. Felly, hoffem wybod:

2. Ar ba sail y mae'r newid arfaethedig yn cael ei wneud?

Ers i Ysgol Pencae agor yn 1991, mae'r disgyblion a'u rhieni wastad wedi bod yn ymwybodol y byddant yn mynychu Ysgol Plasmawr. Felly mae Ysgol Pencae wedi datblygu cysylltiadau cryf a hirsefydlog gyda'r ysgolion bwydo eraill ar gyfer Ysgol Plasmawr, a hefyd gyda'r ysgol ei hun. Mae'r cysylltiadau hyn yn cymryd amser i'w datblygu ac maent yn hanfodol er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i ddisgyblion o addysg gynradd i addysg uwchradd. Felly, mae'n hynod siomedig y gall y newid arfaethedig hwn ddod i rym gydag ychydig dros flwyddyn academiaidd i baratoi ar gyfer newid mor sylweddol.

Gyda'r cynnydd disgwylidig yn nifer y cartrefi yn yr ardaloedd o gwmpas Ysgol Pencae a'r rhai sy'n bwydo Ysgol Plasmawr ac Ysgol Glantaf, mae pryder gwirioneddol na fydd y newid arfaethedig hwn ond am gyfnod byr o amser. Rydym yn pryderu, os nad oes gan y Cyngor strategaeth briodol i reoli'r twf hwn, y bydd problemau pellach gyda gordanysgrifio mewn ysgolion uwchradd a chynradd fel ei gilydd, ac y bydd angen dod o hyd i ateb tymor byr arall a allai darfu ymhellach ar ddisgyblion Ysgol Pencae. Felly, hoffem wybod:

3. Os bydd y newid hwn yn digwydd, am ba hyd y bydd y dalgyrch newydd yn cael ei warantu?

Lles ein disgyblion yw'r pryder allweddol i bawb yn Ysgol Pencae, ac er y bydd y ddwy ysgol uwchradd yn gallu cynnig profiadau o ansawdd uchel i'n disgyblion fel y nodwyd eisoes, bydd cyflwyno'r newid hwn o Ysgol Plasmawr i Ysgol Glantaf ar fyr rybudd yn cael effaith sylweddol ar y plant hynaf yn Ysgol Pencae. Bydd angen i lawer ohonynt a'u rhieni naill ai benderfynu gadael eu ffrindiau i fod gyda brodyr a chwiorydd hŷn yn Ysgol Plasmawr, neu aros gyda'u ffrindiau a mynychu ysgol wahanol i'w brodyr a chwiorydd, gyda'r holl faterion a heriau ymarferol y bydd hyn yn ei olygu i rieni.

Byddem felly'n gwerthfawrogi pe gallech ymateb i'r canlynol:

4. A fydd lleoedd yn Ysgol Plasmawr yn cael eu gwarantu i blant sydd â brodyr a chwiorydd eisoes yn Ysgol Plasmawr os yw'r newid hwn yn digwydd?
5. A fydd lleoedd yn Ysgol Glantaf cael eu gwarantu i ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 4 a 5 hyd yn oed os ydynt y tu allan i'r dalgyrch presennol?

Mae yna rai disgyblion yn y categori olaf, ac mae pryder os nad ydynt yn cael symud ymlaen gyda'u cyd-ddisgyblion, yna y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar eu datblygiad.

Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â diogelwch plant sy'n teithio o ardal Highfields i Ysgol Glantaf. Mae'r goleuadau ar y stepiau sy'n arwain o'r ardal i lawr i Ysgol Glantaf yn wael, ac nid oes croesfan briodol i gyrraedd Ysgol Glantaf.

A allwch hefyd gadarnhau felly:

6. Os yw'r newid hwn yn digwydd, a fydd llwybr diogel a chroesfannau ffyrdd priodol yn cael eu gwarantu i ddisgyblion gyrraedd Ysgol Glantaf?

Byddai'r Corff Llywodraethu yn ddiolchgar pe gallech roi sylw i'r cwestiynau a ofynnwyd yn y llythyr hwn cyn gynted â phosibl. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfarfod â chynrychiolwyr o'r Cyngor yn bersonol i drafod y newidiadau arfaethedig hyn, a'r effaith y byddant yn ei chael ar Ysgol Pencae.

Yn gywir

Daniel Rhys Tiplady

Cadeirydd y Llywodraethwyr

Ysgol Pencae

-----Neges wreiddiol-----

Oddi wrth: Elinor Patchell [mailto:ElinorPatchell@patchelldavies.co.uk]

Anfonwyd: 29 Chwefror 2016 14:49

I: Ymateb ysgolion <ymatebysgolion@caerdydd.gov.uk>

Pwnc: Cynnig dalgylch Ysgol Pencae

Hoffwn gefnogi'r cynnig i adleoli dalgylch Ysgol Gynradd Gymraeg Pencae o ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr i ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Teimlaf fod hyn yn gam synhwyrol gan gydnabod dyletswydd i sicrhau dosbarthiad rhesymol o ddisgyblion yn ôl lleoedd gwag ac er mwyn sicrhau defnydd priodol ac effeithiol o adnoddau'r Cyngor sydd eisoes mewn bod. Nid yw cynlluniau blaenorol wedi cyflawni'r nod yma ond hyderaf y byddai'r cynnig hwn yn annerch y broblem ac yn galluogi'r ysgolion a enwir i ddatblygu a chwrdd a'r galw cynyddol am Addysg Gymraeg.

Hoffwn fynegi fy nghefnogaeth i'r cynnig i adleoli dalgylch Ysgol Pencae o ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr i ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Teimlaf fod y cynnig hwn yn rhesymol a hefyd mae'n cydnabod y ddyletswydd i sicrhau dosbarthiad rhesymol o ddisgyblion yn ôl lleoedd gwag tra'r un pryd yn sicrhau defnydd priodol ac effeithiol o adnoddau'r Cyngor. Ni lwyddodd y Cynllun Trefniadaeth ysgolion blaenorol i gyflawni'r nod hwn ar bwynt ei weithredu. Fodd bynnag, mae'r cynnig presennol yn ymdrin â'r mater hwn a bydd, mi gredaf, yn caniatáu i'r cyfan o'r ysgolion a enwir ddatblygu a chwrdd â'r twf cynyddol mewn galw am addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd. Cafodd tynnu ysgolion o ddalgylch Glantaf i ddarparu disgyblion ar gyfer yr Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern newydd ar ochr ddwyreiniol y ddinas effaith ddramatig ar gymeriant Glantaf, heb adliniad priodol o ysgolion ar ochr orllewinol y ddinas i unioni'r cydbwysedd. Roedd bob amser yn rhan annatod o Gynllun Trefniadaeth Ysgolion y Cyngor bod y diffyg hwn yn nifer y myfyrwyr a grëwyd yng Nglantaf yn cael ei leddfu gan y twf yn niferoedd dalgylch Plasmawr, ac ailddyrrannu dalgylchoedd. Gallaf ragweld amser pan fydd angen rhoi ystyriaeth bellach i ddalgylchoedd y tair ysgol er mwyn darparu ar gyfer y galw, ac ystyriaf fod gosod buddiant personol pur o'r neilltu yn hanfodol i ni fel Penaethiaid, mewn cydweithrediad â'r Cyngor, er mwyn cynllunio'n ddigonol ar gyfer lleoedd yn y dyfodol a datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas. Credaf bod y cynnig presennol angen yr un weledigaeth i sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth yn y tymor hir.

Elinor Patchell

Chair/Cadeirydd Ysgol Gyfun Bro Edern.

Faint, illegible text, likely bleed-through from the reverse side of the page. The text is mirrored and difficult to decipher.

Faint text at the bottom right of the page, possibly a signature or date.

Oddi wrth: Hayes, Mike (Ysgolion)

Anfonwyd: 29 Chwefror 2016 09:23

I: Ymateb ysgolion <ymatebysgolion@caerdydd.gov.uk>

Pwnc: Ymateb- Plasmawr Glantaf Pencae

Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y cynnig i drosglwyddo dalgylch Ysgol Pencae o Blasmawr i Lantaf.

Ni chredaf bod y niferoedd wedi eu cyfrifo yn iawn yn y tymor byr i ganolig.

Pe bai disgyblion Pwll Coch i gyd yn trosglwyddo i Lantaf (fel y dylai ddigwydd), yna bydd ganddynt eu 8 dosbarth mynediad dyranedig: Melin Gruffydd, Y Wern, Pwll Coch i gyd yn 2 ddosbarth mynediad a Mynydd Bychan a Glan Morfa yn darparu 1 dosbarth mynediad yr un. Bydd Glan Ceubal yn darparu mwy o ddisgyblion wrth i'r niferoedd yno gynyddu, ac yn fuan bydd gan Y Wern drydedd ffrwd yn dod drwodd.

Dim ond fel ateb tymor byr y gellir ystyried trosglwyddo Pencae, un a fydd â chanlyniadau tymor hir difrifol i Blasmawr. Bydd newid gwirioneddol yn y gymysgedd gymdeithasol ym Mhlasmawr, a bydd sgil effeithiau hyn yn ddifrifol i'r ysgol.

Nodaf gyda diddordeb y cynnig i newid dalgylchoedd Fitzalan a Cantonian. Yn eironig, bydd tynnu Pencae allan o Blasmawr yn creu sefyllfa debyg iawn i'r hon mae'r Cyngor yn ceisio ymdrin â hi yn Cantonian.

Yr wyf yn eich hannog i ailfeddwl ynghylch trosglwyddo Pencae o un dalgylch i'r llall fel yr unig opsiwn ar gyfer datrys y problemau derbyniadau dros dro presennol.

Yn ddiffuant,

Mike Hayes

Pennaeth / Headteacher

Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof

Beechley Drive

Pentrebaen

Caerdydd / Cardiff

CF5 3SG

029 20564585

Faint, illegible text, possibly bleed-through from the reverse side of the page.



29 Chwefror 2016

Mr N Batchelar
Cyfarwyddwr Addysg
Cyngor Caerdydd

Annwyl Mr Batchelar

Dyfodol Addysg Uwchradd Cymraeg yng Nghaerdydd

Pwrpas y llythyr hwn yw i ychwanegu llais Ysgol Gyfun Gwaelod y Garth i'r rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Pencae o ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr i ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

Mae ein diddordeb yn deillio o'n hawydd i sicrhau dyfodol disglair i Blasmawr, gan mai honno yw'r ysgol sy'n derbyn cymaint o'n disgyblion, wedi iddynt ein gadael.

Mae'r rhesymau dros wrthwynebu wedi eu crybywll isod, mewn llythyr sydd hefyd wedi ei arwyddo gennyf, ac mewn papur gan John Hayes, Prifathro Plasmawr.

Rwy'n credu fod y ffigyrau sy'n crybwyll cymaint fydd y pwysau ar Ysgol Glantaf, erbyn 2017, yn dangos yn glir na fydd eich cynllun presenol yn cynnig datrysiad tymor hir i'r problemau a wynebir gennym.

Yn hytrach, fe fydd yn tarfu ar ddatblygiad Plasmawr - ac yn discrimineiddio yn erbyn yr ysgol honno, ei disgyblion, a'i rhieni, drwy amharu'n enfawr ar allu'r ysgol i ddenu disgyblion o bob gallu a chefnidir - a thrwy hynny sicrhau fod yr ysgol yn dal i feddu ar awyrgylch a fydd yn ei alluogi i ddatblygu potensial addysgol a chymdeithasol ystod eang ac amrywiol o ddisgyblion (tra hefyd yn gwasanaethu fel sefydliad sy'n adlewyrchu'r cymunedau amrywiol sy'n bodoli yng Ngorllewin Caerdydd).

Ar yr un pryd, fe fyddwch yn trosglwyddo'r broblem o ran diffyg capasiti i Ysgol Glantaf a fydd, erbyn 2017, yn orlawn.

Gyda'ch cynllun, felly, fe fyddwch wedi llwyddo i greu problemau i'r ddwy ysgol, gan amharu ar eu datblygiad a'u gallu i gynnig addysg penigamp, tra hefyd yn creu dryswch ac ansicrwydd i staff, disgyblion a rhieni Plasmawr a Glantaf.

Mae Ysgol Gwaleod y Garth yn cefnogi'n gryf, felly, cynnig Mr Hayes, sef fod angen ystyried hyn oll yng nghyswllt yr hir-dymor, ac yng nghyswllt agor y pedwerydd ysgol uwchradd Gymraeg.

Wrth ddilyn ei syniadau ef, gellir datblygu datrysiad hir-dymor, tra'n osgoi niweidio Plasmawr a Glantaf.

Deallaf fod ganddo syniadau penigamp o ran creu'r gofod ychwanegol (dros dro) y bydd ei angen ym Mhplasmawr - ac fe ddylai'r awdurdod addysg eu hystyried yn fanwl, gan dderbyn y bydd yn beth gwerthfawr iawn pe byddai modd eu gwireddu, er mwyn gwarchod y ddwy ysgol.

Hoffwn eich hatgoffa, hefyd, fod cyfrifoldeb statudol i'w osod ar yr awdurdod addysg, yn y dyfodol agos, i ystyred effaith eich penderfyniadau a'ch polisiau ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg (yn unol a Mesur y Gymraeg). Gall newid dalgyrch Plasmawr, yn y modd a gynnigir gennych, leihau'n sylweddol y canran o blant a ddaw yno o deuluoedd Cymraeg. Mae ymchwil yn dangos fod defnyddio'r Gymraeg adref yn eich gwneud yn llawer fwy tebyg i'w defnyddio'n gymdeithasol. Pe byddech yn gwireddu eich cynllun, felly, fe fyddech yn newid 'tirwedd ieithyddol' yr ysgol a phatrwm cefndir ieithyddol y disgyblion. Fe ddaw'n anoddach, wedyn, i'r plant sydd am wneud hynny, i ddefnyddio'u Cymraeg ar yr iard ac yn gymdeithasol o fewn yr ysgol - a gyda'u cyd-ddisgyblion tu hwnt i furiau'r ysgol. Fe fyddwch, felly, mewn gwir peryg o greu sefyllfa sy'n lleihau'r gallu i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, yn groes i'r safonau iaith.

O'r herwydd, rwy'n copio'r llythyr hwn at Comisiynydd y Gymraeg. Gwn y bydd hi am ymateb i'r sefyllfa.

Gyda diolch - a gyda phob dymuniad da.

Huw Jones

Huw Onllwyn Jones

Caderiydd

Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gwaelod y Garth

Mr N. Batchelar

Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cyngor Caerdydd

Ymgynghoriad ar gyfer dalgylch Ysgol Pencae.

Annwyl Mr Batchelor

Rwyf yn anghytuno'n gryf â'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Pencae o ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr i ddalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf am y rhesymau canlynol:

- Credaf fod y cynnig yn ddatrysiad tymor byr yn unig fyddai'n arwain at oblygiadau hir dymor i Ysgol Plasmawr yn nhermau natur ei dalgylch ac i Ysgol Glantaf yn nhermau creu problemau gorlenwi yn y tymor canolig.
- Nid yw'r wybodaeth a roddwyd yn y ddogfen ymgynghori (2 Chwefror 2016) yn ddigonol i fedru dod i benderfyniad mor bwysig ar natur dalgylch ysgolion.
- Mae Ysgol Pencae yn ysgol sydd yn perfformio'n dda iawn yn academiaidd. Pe bai Ysgol Pencae yn symud i ddalgylch Ysgol Glantaf fe fyddai Ysgol Plasmawr yn dioddef yn nhermau ei phroffil academiaidd a chyfranogiad, y nifer o fyfyrwyr fyddai'n aros i'r Chweched Dosbarth ac fe fyddai'n cael effaith hir dymor ar addysg Gymraeg ar draws y ddinas.
- Mae'r cynnig yn herio un o egwyddorion sylfaenol sefydlu Ysgol Plasmawr yn 1998 sef i sicrhau fod Plasmawr a Glantaf yn hafal yn nhermau natur dalgylchoedd y ddwy ysgol. Credaf ei fod yn bwysig bod y ddwy ysgol yn cael cyfle teg i barhau i lwyddo sy'n golygu cadw Ysgol Pencae o fewn dalgylch Plasmawr. Mae'r cynnig hwn yn tanseilio'r egwyddor bod angen i'r ddwy ysgol gael dalgylchoedd sydd â chymysgedd cymdeithasol-economaidd debyg.

Credaf bod angen datrysiad hir dymor i'r twf cynyddol yn y niferoedd o ddisgyblion sydd am dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Brifddinas, nid ymateb yn fyrbwyll fel bod angen ail-edrych ar dalgylchoedd yr ysgolion eto mewn rhai blynyddoedd.

Dylid ymchwilio i ddatrysiadau tymor byr i broblemau lleol y ddwy ysgol er mwyn sicrhau fod Ysgol Pencae yn aros o fewn dalgylch Plasmawr fyddai'n cadw natur y dalgylchoedd yn hafal.

Rwyf yn erfyn ar y Tîm Cynllunio Ysgolion i ystyried yr effaith negyddol fyddai colli Ysgol Pencae yn ei gael ar gymuned Ysgol Plasmawr ac i osgoi datrysiadau byr dymor fyddai'n cael effaith pell-gyrhaeddol ar addysg Gymraeg ar draws y Brifddinas.

Yr eiddoch yn gywir

Llofnod: Huw Jones

Enw: Huw Onllwyn Jones

Dyfodol addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd.

Wrth i niferoedd disgyblion barhau i dyfu ac wrth i Gynlluniau Datblygu Lleol Caerdydd ddod yn realiti, mae'n hanfodol bod dalgylchoedd y tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg presennol yn cael eu hystyried yn y tymor canolig i'r tymor hir, yn hytrach na cheisio dod o hyd i ateb byrdymor, hawdd, byrweledol i ymdrin â'r anghydbwysedd presennol yn nifer y disgyblion, a allai fod yn hynod niweidiol i un ysgol neu'r llall, ac achosi problemau hirhoedlog i etifeddiaeth addysgol y cyfan o Gaerdydd.

Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i ddalgylchoedd y dyfodol yn achos bob un o'r tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd er mwyn sicrhau bod y tair ysgol yn cael cyfleoedd cyfartal i ffynnu dros y tymor canolig i hir. Cytunwyd ar egwyddorion clir yn ystod y cam cynllunio a arweiniodd at agor Ysgol Plasmawr yn 1998 ac Ysgol Bro Edern yn 2012, a oedd yn cynnwys sicrhau bod dalgylchoedd y tair ysgol mor debyg â phosibl o ran dangosyddion cymdeithasol-economaidd h.y. ystyriwyd ei bod yn hanfodol bod gan bob ysgol gymysgedd cymdeithasol teg a chyfiawn:

Ar hyn o bryd, mae gan y tair ysgol ddalgylch cymdeithasol-economaidd cymharol amrywiol fel y gwelir yn nhabl A isod, er efallai bod Bro Edern sy'n gwasanaethu ochr ddwyreiniol Caerdydd yn herio cywirdeb y datganiad hwn.

Tabl A: % prydau ysgol am ddim fesul dalgylch ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg fel dangosydd o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd (2015).

Ysgol	% prydau ysgol am ddim	Ysgol	% prydau ysgol am ddim	Ysgol	% prydau ysgol am ddim
Plasmawr		Glantaf		Bro Edern	
Nant Caerau	28.80%	Melin Gruffydd	3.70%	Berllan Deg	7.60%
Pencae	2.70%	Y Wern	4.90%	Bro Eirwg	19.0%
Coed Y Gof	24.20%	Pwll Coch	7.10%	Pen y Pil	28.80%
Gwaelod y Garth	5.40%	Mynydd Bychan	9.80%	Pen y Groes	15.30%
Creigiau	3.20%	Glan Morfa	28.30%		
Treganna	3.70%				

Y ddadl dros newid:

Mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd y mwyafrif helaeth o ddisgyblion Ysgol Pwll Coch yn trosglwyddo i Ysgol Glantaf ym Medi 2016 gan sefydlu Pwll Coch yn gadarn fel un o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo Glantaf. Mae niferoedd disgyblion Blwyddyn 6 sydd ar hyn o bryd yn byw yn nalgylch Plasmawr yn dangos y bydd Plasmawr yn agos at ei nifer derbyn o 180 ym Medi 2016. Awgryma'r data dalgylch presennol ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd y bydd y nifer o ddisgyblion yn nalgylch Plasmawr yn fwy na'r nifer derbyn safonol o 180 (6 f/e) yn Medi 2017 (gweler tabl B isod), sef y brif ddadl dros newid.

Tabl B: Niferoedd rhagamcanedig o ddisgyblion yn nalgylch Plasmawr 2016 – 2020.

Blwyddyn	Treganna	Gwaelod	Creigiau	Nant Caerau	Pencae	Coed-Y-Gof	Cyfanswm
2016/2017	55	23	25	7	29	45	184

2017/2018	60	22	27	31	31	47	218
2018/2019	60	31	21	27	30	46	215
2019/2020	90	27	29	29	30	54	259

Mae nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo yn flynyddol i Blasmawr o Bencae, Creigiau a Gwaelod y Garth bob amser yn llai na'r nifer a nodwyd oherwydd amrywiaeth o ffactorau gwahanol.

Mae Ysgol Glantaf yn debygol o aros yn y tymor byr o dan ei nifer derbyn safonol o 240 (8 f/e) ond bydd hyn yn newid dros y blynyddoedd nesaf wrth i'r niferoedd cynyddol o ddisgyblion yn y cyfnod cynradd weithio eu ffordd yn flynyddol trwy'r system gynradd. Mae'r data yn nhabl C yn awgrymu'n gryf y bydd Glantaf yn mynd dros ben ei nifer derbyn safonol yn 2017.

Yr ateb hawdd, tymor byr, ymarferol yr ymgynghorir arno yw trosglwyddo Ysgol Pencae o ddalgylch Plasmawr i ddalgylch Glantaf ar sail agosrwydd daearyddol. Mewn termau damcaniaethol yn unig, hwn yw'r ateb mwyaf rhesymegol; fodd bynnag, mae'r awgrym hwn yn ddiffygiol o ran egwyddorion addysgol a byddai'n cael effaith barhaol ar addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas. Mae Ysgol Pencae yn ysgol gynradd sy'n perfformio'n dda, gan elwa o ddalgylch ffyniannus a chefnog. Pe bai Pencae yn symud i ardal dalgylch Glantaf, byddai'n cryfhau'r hyn sydd eisoes yn ysgol uwchradd sy'n perfformio'n eithriadol o uchel a llwyddiannus, a byddai hyn yn andwyol i Ysgol Plasmawr.

Pe byddai'r penderfyniad hwn yn cael ei gymeradwyo, byddai'n arwain at i Ysgol Glantaf wasanaethu rhannau mawr o ganol Caerdydd gyda chyfran uchel o wardiau cefnog, a byddai'n arwain at i Blasmawr a Bro Edern wasanaethu ymylon gorllewinol a dwyreiniol Caerdydd yn bennaf, sydd hefyd yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf heriol a chymdeithasol-ddifreintiedig yng Nghaerdydd. Byddai'r penderfyniad hwn yn herio egwyddorion sylfaenol sefydlu Plasmawr a Bro Edern fel ysgolion cyfartal i Ysgol Glantaf yn nhermau natur dalgylchoedd. Yn fy marn i, byddai'r penderfyniad hwn yn tansilio gweledigaeth Caerdydd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn herio un o'i brif egwyddorion fel y'u nodir yng Nghynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg Caerdydd:

"I gefnogi'r weledigaeth ehangach ar gyfer Caerdydd ddwyieithog trwy ddarpariaeth addysgol lle mae:

addysg cyfrwng Cymraeg yn gynhwysol, gan oresgyn rhwystrau a gallu unrhyw berson ifanc i gyflawni addysg dda trwy gyfrwng y Gymraeg".

Tabl C: Ardaloedd dalgylch ym Medi 2017 **pe bai** Pencae yn symud i ddalgylch Glantaf gan gynnwys dosbarthiadau mynediad (FoE) posibl.

	6 FoE	Prydau ysgol am ddim
Plasmawr		
Nant Caerau	1	28.80%
Coed Y Gof	1.5	24.20%
Gwaelod y Garth	0.8	5.40%
Creigiau	1	3.20%
Treganna	2	3.70%
	6.3	

	8 FoE	Prydau ysgol am ddim
Glantaf		
Melin Gruffydd	2	3.70%
Y Wern	2	4.90%
Pwll Coch	2	7.10%
Mynydd Bychan	1	9.80%
Glan Morfa	1	28.30%
Pencae	1	2.70%

	6 FoE	Prydau ysgol am ddim
Bro Edern		
Berllan Deg	2	7.60%
Bro Eirwg	2	19%
Pen y Pil	1	28.80%
Pen y Groes	1	15.30%
	6	

Glan Ceubal	1	32.60%
	9/10	

Mae'n werth nodi nad oes eto faint dosbarthiadau llawn mewn nifer o'r ysgolion cynradd, ac felly gallai'r gwir nifer o ddisgyblion fod yn sylweddol llai na'r hyn a awgrymir gan y data dosbarth mynediad yn y tabl.

Dim ond fel ateb tymor byr y gellir ystyried y cynnig presennol hwn i newid dalgylchoedd Plasmawr a Glantaf, a bydd ynddo'i hun yn creu problemau capasiti ychwanegol pellach i Ysgol Glantaf erbyn 2017 gan ei bod yn debygol iawn o fynd dros ben ei nifer derbyn. Byddwn yn dadlau bod angen ateb tymor hirach ar y pwynt hwn, gan gymryd i ystyriaeth y twf ychwanegol a ragwelir yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg wrth i ddatblygiadau preswyl mawr newydd gael eu hadeiladu yng Nghaerdydd.

Dylid chwilio am atebion tymor byr lleol i sicrhau hyfywedd Plasmawr a Glantaf, a chynnal eu sylfeini cymdeithasol-economaidd cymysg yn hytrach nag ymdrin â newidiadau dalgylch sy'n debygol o orfod newid eto wrth i'r twf yn y boblogaeth newydd yng Ngorllewin Caerdydd ddechrau cael effaith ar y ffigyrau derbyn i ysgolion, ac i bedwaredd ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ddod yn rheidrwydd.

Faint, illegible text, possibly bleed-through from the reverse side of the page. The text is too light to transcribe accurately.

Cais i Alw i Mewn:

Penderfyniad Cabinet CAB/15/84, gwnaed 21/03/2016.

Newid i ddalgylch Cyfrwng Cymraeg Ysgol Plasmawr ac Ysgol Glantaf drwy symud dalgylch Ysgol Pencae o Ysgol Plasmawr i Ysgol Glantaf i'w weithredu o fis Medi 2017.

Hoffwn alw'r penderfyniad hwn i mewn am y rhesymau canlynol:

1) Mae'r rhesymeg y tu ôl i'r newid yn ddiffygiol. Mae'n ateb tymor byr i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn nalgylchoedd Ysgol Plasmawr ac Ysgol Glantaf ill dwy.

- Mae'r galw sydd wedi ei ragamcanu am leoedd yn nalgylchoedd Ysgol Glantaf ac Ysgol Plasmawr yn fwy na'r nifer o leoedd sydd ar gael ym Medi 2019, ond nid ystyriwyd ffigurau ar ôl 2017 wrth wneud y penderfyniad. Mae hyn er gwaethaf y ffaith eu bod wedi eu hystyried wrth benderfynu peidio â bwrw ymlaen gyda newidiadau i ddalgylchoedd cyfrwng Saesneg Ysgol Uwchradd Fitzalan ac Ysgol Uwchradd Cantonian a'r dalgylchoedd cyfrwng Saesneg cynradd sy'n gysylltiedig â nhw.
- Dim ond y rhagamcan am alw yn 2017 yn Ysgol Glantaf ac Ysgol Plasmawr yr ymgynghorwyd, lle byddai 201 o ddisgyblion yn chwilio am le yn Ysgol Glantaf, sydd â 240 o leoedd ar hyn o bryd, a 210 o ddisgyblion yn chwilio am le yn Ysgol Plasmawr sydd ar hyn o bryd â 180 o leoedd ar gael.
- Mesur byr dymor yw'r penderfyniad i symud dalgylch Ysgol Pencae o Ysgol Plasmawr i fynd i'r afael â'r galw uwch nag sydd o leoedd yn Ysgol Plasmawr a llai o alw na lleoedd yn Ysgol Glantaf yn 2017. Nid yw'n ystyried o gwbl y galw sydd wedi ei ragamcanu ar gyfer 2019 pan fyddai Ysgol Glantaf yn llawn, gyda 240 o ddisgyblion yn chwilio am leoedd yno.
- Hyd yn oed pe bai dalgylch Ysgol Pencae yn cael ei symud i ddalgylch Ysgol Glantaf, byddai Ysgol Plasmawr yn llawn erbyn 2020/2021 .

2) Mae nifer o rydd-ddeiliaid pwysig wedi mynegi gofid y gallai'r newid effeithio'n andwyol ar les cymdeithasol ac economaidd disgyblion.

- Byddai'r cynnig i symud Ysgol Gynradd Pencae o ddalgylch Plasmawr yn golygu y byddai Ysgol Glantaf yn derbyn plant o'r tair ysgol gynradd Gymraeg sy'n perfformio orau, gan adael Ysgol Plasmawr â phoblogaeth sydd ag amrywiaeth proffil lai effeithiol. Byddai'r newid yn effeithio'n andwyol ar gydbwysedd socioeconomaidd Plasmawr, a'r perygl yw y byddai rhieni yn ystyried Ysgol Glantaf yn "ysgol elit". Mae llawer o bobl yn ystyried data Prydau Ysgol am Ddim yn ddull amrwd o farnu proffil socioeconomaidd ac nad yw'r adlewyrchu ardaloedd Caerdydd yn gywir.

- Gallai symud Ysgol Pencae o ddalgyllch Plasmawr effeithio'n negyddol ar allu disgyblion i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gallai symud Ysgol Pencae o ddalgyllch Plasmawr effeithio'n andwyol ar ddarpariaeth chweched dosbarth.

3) Mae'r ymgynghoriad yn diystyru barn y mwyafrif.

Mae'r nifer o wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn debyg i'r nifer a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad i newidiadau yn nalgylchoedd ysgolion cyfrwng Saesneg. Argymhellwyd na ddylai'r Cabinet fwrw ymlaen gyda'r newidiadau i'r dalgylchoedd cyfrwng Saesneg, ond cymeradwyodd y Cabinet y newidiadau i'r dalgylchoedd Cymraeg. Ar ben hyn, diystyrwyd nifer fawr o wrthwynebiadau gan ddisgyblion.

- Mae dalgylchoedd eisoes wedi eu newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae newidiadau byr dymor eraill yn mynd i amharu heb angen. Byddant yn tanseilio ffydd yn y ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ac yn bwysicach na dim ni fyddant yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â lleoedd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y tymor canol a'r hir dymor yn nalgylchoedd y ddwy ysgol a ledled y Ddinas.

4) Dylid galw'r penderfyniad i mewn a chynghori swyddogion i gynnal adolygiad ar yr opsiynau ar gyfer darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn nalgylchoedd presennol y ddwy ysgol a ledled y Ddinas.

- Dylid rhoi cyfle i rydd-ddeiliaid allweddol i roi eu barn ar newidiadau i ddalgylchoedd yn ystod y broses Alw i Mewn.
- Dylid dileu'r penderfyniad, ac yn debyg i'r newidiadau yn nalgylchoedd ysgolion cyfrwng Saesneg rhan hon y ddinas, ni ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau tan i adolygiad buan gael ei gynnal.

Y Cynghorydd Dianne Rees
Aelod o Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc
5 Ebrill 2016

GALW I MEWN, PARTHED ADOLYGIAD DALGYLCHOEDD CYFRWNG CYMRAEG - EITEM 5 CABINET 21 MAWRTH 2016

Annwyl Paul

Mae'r canlynol yn sail i'r cais galw i mewn. Rwyf yn ystyriol o'r ffaith y gallai'r galwad hwn i mewn oedi gweithrediad, os cadwir at y penderfyniad gwreiddiol, tan fis Medi 2018, gan fod y flwyddyn benderfynu fel arfer wedi ei hamserlennu i ddod i ben ar 15 Ebrill. Rwyf wedi derbyn cyngor na ellir ymestyn y dyddiad hwn, ond hoffwn ofyn am eithriad er mwyn ymestyn y dyddiad o dan yr amgylchiadau, e.e. purdah adeg etholiad.

Rwyf yn ystyriol hefyd o leoliad Ysgol Glantaf, gyda dwy ysgol un dosbarth mynediad gerllaw (Ysgol Pencae ac Ysgol Glan Ceubal) a dwy ysgol cyfrwng Saesneg un dosbarth mynediad gerllaw hefyd. Nodaf, o edrych ar y map ac adroddiadau, bod y Cyngor yn cynnal PEDAIR ysgol ag un dosbarth mynediad ar bedwar safle mewn ardal ddaearyddol gymharol fach: Ni fyddwn yn synnu pe bai rhaid ystyried cydgrynhoi'n ddwy ysgol dau ddosbarth mynediad yn y dyfodol rhagweladwy wrth i gyllid y Llywodraeth ddal i gael ei thorri.

CEFNDIR

Fel y gwyddoch, rwyf wedi derbyn sylwadau gan rieni, Cadeirydd, llywodraethwyr ac athrawon yn bennaf drwy uwch athro yn Ysgol Plasmawr. Rwyf hefyd wedi derbyn gwybodaeth bod rhyw 300 wedi ymateb i wrthwynebu'r newid a deiseb â dros 400 wedi ei harwyddo ac a nodwyd yn yr adroddiad. Tra bo'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn sylweddoli NAD refferendwm yw ymgynghoriad, a thra'n cydnabod bod y rhai o blaid cynnig yn llai tebygol o ymateb, rwyf o'r farn bod y nifer uchel o ofidiau a godwyd gan rydd-ddeiliaid yn rhywbeth sy'n haeddu ei ystyried yn ystod proses alw i mewn.

Mae Ysgol Plasmawr wedi gweithio ar yr agenda 14-19 ers sawl blwyddyn mewn partneriaeth gydag Ysgol Glantaf ac rwyf wedi derbyn sicrwydd fod pawb yn cefnogi angen yr Awdurdod i gael strategaeth glir ar gyfer datblygu Addysg Gymraeg yng Nghaerdydd. Mae cydnabyddiaeth eang hefyd fod galw cynyddol am leoedd yn awgrymu y gallai fod angen pedwaredd ysgol uwchradd Gymraeg ond y byddai angen ymgynghori a chynllunio tymor hirach ar gyfer hyn. Ar ben hyn, mae amseru a graddfa'r datblygiadau Plas Dŵr ar Ffordd Llantrisant yn ei gwneud yn anodd rhagweld galw'r dyfodol a'r pwysau a allai fod ar ysgolion yn y tymor canol i hir dymor.

Cydnabyddir y materion ynghylch gormod o leoedd a ddangosir yn Nhabl 8 yr adroddiad (gweler isod) ond dadleuir bod symud dalgylch ysgol er mwyn rhyw 30 o ddisgyblion am 2 flynedd pan ragamcenir y bydd lleihad yn Ysgol Plasmawr yn 2018 yn benderfyniad adweithiol a byr dymor, ac y gallai greu problemau ychwanegol, yn enwedig gan y gallai llawer o deuluoedd ddewis anfon eu plant iau i Plasmawr yn 2017 a 2018.

Cydnabyddir hefyd ei bod yn ddyletswydd ar y cyngor i weithredu ar sail cyngor cyfan ac anawsterau delio gyda thair haen o ddyraniadau lleoedd, yn aml yn gwrthdaro â'i gilydd, ac addysg mewn dau gyfrwng ac ysgolion ffydd. Sylweddolir bod canllawiau'r Llywodraeth yn golygu bod yn rhaid gweithredu mewn rhai ffyrdd, ond mae materion allweddol yr hoffent i mi eu codi ar eu rhan yn y broses alw i mewn, fel a ganlyn.

1. YSTYRIED DATA ÔL-2017:

Gellid dadlau bod y cynnig wedi ei seilio ar sicrhau cydbwysedd rhwng y galw am leoedd ysgol a'r nifer o leoedd oedd ar gael, ond ymddengys mai dim ond data 2017/18 a ystyriwyd, er bod rhagamcanion yn dangos yn glir y bydd y cydbwysedd rhwng y galw a'r nifer o leoedd ar gael yn Ysgol Glantaf (gweler tabl 6 isod) yn cydbwysu'n naturiol heb unrhyw newidiadau i'r dalgylchoedd erbyn 2019/20:

Derbyn addysg Uwchradd	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021
Dalgylch:							
Glan Ceubal *	23	18	16	26	21	25	30
Glan Morfa	19	16	22	25	28	21	22
Melin Gruffydd	42	43	49	45	46	39	47
Mynydd Bychan*	25	18	24	21	31	31	25
Pwll Coch**	25	48	38	47	51	48	52
Y Wern	50	54	52	48	63	65	65
Cyfanswm	184	197	201	212	240	229	241
Gwarged/diffyg dalgylch	56	43	39	28	0	11	-1

Byddwn i'n sicr yn croesawu esboniad ynghylch pam bod yr adroddiad yn nodi ym mharagraff 118 *'ni ellir ymgynghori ar hyn o bryd ar y trefniadau derbyn y gallai fod angen eu gweithredu y tu hwnt i 2017/18'*. Ymddengys fod hyn yn gwrthgyferbynnu'n amlwg â'r dadleuon Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig a ddefnyddir wrth drafod dalgylchoedd Fitzalan a Cantonian (paragraff 35 yr adroddiad) lle defnyddir rhagamcanion 2019/20.

Maen nhw'n dod i'r casgliad, fel yr ydw i, bod trefniadau derbyn yn dibynnu ar ddata Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig y dyfodol. Gosodwyd cynsail wrth ddefnyddio rhagamcanion hirach dymor yng Ngorffennaf 2014 yn yr adroddiad ar ddarpariaeth addysg Gymraeg yn Llanisien pan ddefnyddiwyd rhagamcanion hyd at 2019/20 ar gyfer darpariaeth addysg Gymraeg yn Llanisien (sydd yn anodd ei ragamcanu) - pum mlynedd wedi'r adroddiad.

Defnyddiwyd rhagamcanion 3 blynedd yn yr ymgynghoriad cyn sefydlu Ysgol Glan Ceubal yn 2014 pan ddywedwyd, *'Disgwylir i sefydlu Ysgol Glan Ceubal yn ysgol un dosbarth derbyn gyfateb â'r galw yn y dyfodol am leoedd yn yr ysgol o'i dalgylch.'*

Nodaf fod gwerthusiad ar leoedd yn adroddiad y Cabinet, ar dudalennau 16 i 19; nodir rhagamcanion ar gyfer Medi 2015 tan 2021 (h.y. saith mlynedd ar ôl Derbyn yn 2015) ac mai hwnnw felly yw'r cyfnod rhagamcanol hiraf sydd ar gael yn defnyddio data cyfrifo ysgolion dilys. Nodaf hefyd y byddai'r galw yn y ddau ddalgylch yn uwch na'r lleoedd ar gael i

dderbyn i Flwyddyn 7 yn 2019, felly byddwn yn disgwyl data cadarn i'w ddefnyddio wrth gwestiynu trefniadau derbyn, gan fod y rhain yn dibynnu ar niferoedd.

Rwyf yn sylweddoli bod lleoedd gwag yn Ysgol Glantaf ar hyn o bryd, wedi gweithredu fel ysgol 6DD dros y blynyddoedd diwethaf, ac y gallai, pe bai angen, weithredu fel 8DD yn 2021. Fodd bynnag, mae lleoedd gwag hefyd yn Ysgol Bro Edern (i'r dwyrain o Lantaf) ac erbyn 2019 bydd gan y Cyngor fwy o sicrwydd o ran datblygiadau'r CDLI a'r niferoedd, a dylai, yn fy marn i, adolygu'r posibilrwydd o ychwanegu dosbarthiadau derbyn ychwanegol i Blasmawr a Glantaf o 2021 ymlaen. Rwyf yn dadlau ymhellach y gallai Glantaf wedyn dyfu mewn dull haws ei reoli o ysgol 8+ dosbarth derbyn o 2021 ymlaen wrth i'r datblygiadau safle strategol fynd yn eu blaen.

Gallai'r cyngor ddadlau bod deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn gwahardd ymgynghori ar drefniadau derbyn y gellid eu gweithredu i gydbwysu dalgylchoedd Glantaf/Bro Edern yn 2019 e.e. trosglwyddo dalgylch Ysgol Glan Morfa er enghraifft i Fro Edern.

Rwyf hefyd yn nodi'r ddadl na fyddai, efallai, yn fuddiol gwneud hynny ar yr adeg hon pan fyddai poblogaeth dalgylch presennol Glantaf yn disgyn.

Fodd bynnag, mae fy mhrif awgrym, sef gosod cap derbyn o 210 ar y ddwy ysgol yn y byr dymor, yn galluogi cynnal adolygiad mwy realistig ac ehangach o lawer yn 2019 pan fydd mwy o eglurder ynghylch amserlen a'r galw o gartrefi newydd a gynllunnir yng Ngorllewin Caerdydd, yn enwedig y rhai fydd o fewn dalgylch Ysgol Plasmawr.

Rwyf yn cytuno ei bod yn hynod annhebygol y byddai'r nifer o ddisgyblion o oedran ysgol statudol ar gofrestr Ysgol Plasmawr yn disgyn yn sylweddol ac rwyf felly o'r farn y byddai datrysiad mwy cydlynol - o bosibl yn cynnwys cynlluniau ar gyfer pedwaredd ysgol uwchradd - yn fwy datblygedig o lawer erbyn hynny ar sail rhagamcanion Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig mwy gwydn.

Rhaid i fi felly, unwaith eto, gydymdeimlo â'r ddadl sydd gan ymatebwyr ei bod yn ymddangos yn wirion derbyn rhagamcanion hir dymor mewn rhai achosion ond dim ond rhagamcanion byr dymor yn yr achos hwn er gwaethaf yr ystyriaethau uchod.

Yn ychwanegol at hyn, mae'n bosibl y bydd effaith y ddwy ysgol gynradd Gymraeg o dan sylw yng Nghanol Caerdydd yn effeithio mewn ffordd nad yw'n glir ar hyn o bryd ar adolygiadau ffiniau dalgylchoedd a Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig wedi 2019, ac efallai y bydd angen eglurder ar y niferoedd hynny yn ystod y broses alw i mewn a rhoi hwb arall i'r ddadl bod polisi derbyn cydradd dros dro yn briodol.

2. CAPASITI YSGOL PLASMAWR:

Derbynnir bod cynnydd i 210 yn 2017 yn y galw am leoedd yn Ysgol Plasmawr, a'r capasiti derbyn wedi ei osod yn 180 fel ysgol 6 dosbarth derbyn. Mae hyn wedi aros yn ddigyfnewid ers 1998 er gwaethaf tri phroject adeiladu mawr ar y safle, sydd wedi ychwanegu'n fawr at y capasiti derbyn potensial. Mae estyniad 4 llawr gydag 8 o ystafelloedd dysgu ychwanegol wedi ei ychwanegu ers i'r ffigur derbyn gael ei bennu a bydd yr ysgol hefyd yn cynnwys

Canolfan Ieuencid Waterhall o'r haf hwn ymlaen, gan ychwanegu 2 ystafell ychwanegol at y safle.

Derbynnir na fyddai Llywodraeth Cymru yn derbyn yn hawdd gorlenwi un ysgol oherwydd diffyg gweithredu, tra bod lleoedd gwag mewn ysgol gyfagos. Y cwestiwn sy'n codi o hyn yw: pam cynnal adolygiad dalgylch byr dymor o gwbl pan fyddai ail-osod ffigur capasiti y ddwy ysgol yn 210 yn osgoi'r angen am yr adolygiad hwnnw. Byddai hefyd yn rhoi mwy o amser i baratoi ysgolion a rhieni ar gyfer y newidiadau a ddaw yn sgil datblygiadau lleol a mwy o amser hefyd i gydgrynhoi ysgolion un dosbarth derbyn pe bai angen hynny yn y dyfodol.

Tabl 8: Nifer disgyblion yn byw ymhob un o'r dalgylchoedd cynradd o fewn dalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr wedi ei rhagamcanu i hyrwyddo ysgol gymunedol Gymraeg								
Derbyn addysg Uwchradd	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	
Dalgylch:								
Coed y Gof	54	47	53	50	58	61	49	
Creigiau	19	18	20	18	18	15	17	
Gwaelod y Garth	17	9	11	10	14	21	17	
Nant Caerau	16	16	37	26	31	34	30	
Pencae*	29	26	24	25	29	25	35	
Treganna**	50	51	65	64	60	68	80	
Cyfanswm (Sir yn unig)	185	161	210	193	211	224	228	
Gwarged/diffyg dalgylch	-5	19	-30	-13	-31	-44	-48	

Mae Ysgol Plasmawr yn dadlau bod y rhif derbyn wedi dyddio ac y dylai'r cabinet a'r pwyllgorau fod wedi cael gwybod bod yr ysgol o'r farn y gallai dderbyn 210 o ddisgyblion yn hawdd. Cred felly y gall y rhagdybiaethau yn yr adroddiad gael eu herio.

Pe bai'r materion yn ymwneud â capasiti yn cael eu nodi a'u datrys, dadleuir y byddai hyn yn dileu'r gofidiau byr dymor y byddai oblygiadau costau cludo yn dilyn yn sgil gorlenwi Ysgol Plasmawr a chludo disgyblion Trelái a Chaerau i Ysgol Glantaf (byddai hyn yn ychwanegu at amser teithio a chostau).

Maen nhw'n dyfynnu canllawiau Capasiti Ysgolion Llywodraeth Cymru, y dylid penderfynu ar gapasiti '*wedi ystyried trafodaethau gyda Phenathiaid a Llywodraethwyr i gytuno ar ffordd briodol ymlaen o fewn cyd-destun galw am leoedd a capasiti'r adeiladau*' ac roedden nhw'n bryderus iawn na wnaed hyn wrth ddiwygio capasiti derbyn cyn yr adolygiad dalgylchoedd.

Cyfeiriant at yr adroddiad sy'n nodi ei nod i gydbwysu galw a lleoedd ac sy'n dadlau mai'r canlyniad hir dymor mwyaf cynaliadwy yw creu 2 ysgol uwchradd Gymraeg yng Nghaerdydd o feintiau tebyg er mwyn creu gwell cydbwysedd addysgol a daearyddol yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg yn y tymor hirach, yn enwedig gan eu bod yn teimlo bod yr asesiadau effaith amgylcheddol yn annigonol, h.y. tŷ datganiad moel "*Yn gryno, byddai gweithredu'r cynnig fwy na thebyg yn cael effaith bositif o ganlyniad net i ddisgyblion yn defnyddio dulliau teithio sy'n llygru.*"

YMGYNGHORIAD AC YSGOL PENCAE

Nodaf y dadleuon ynghylch trosglwyddo Ysgol Pencae a'i cohort unigryw PYaDd isel ac uchel eu cefnogaeth gan rieni, ac ni chredaf fod hyn yn ffactor pwysig yn y penderfyniad, gan fod y data yn dangos mantais/anfantais fach iawn. Mae Pennaeth Ysgol Glantaf ymhlith y rhai sydd wedi sôn am y thema hon (CA16/WM/47) ac am y ddadl PYaDd felly gofynnaf i'r sawl sy'n gyfrifol am y penderfyniad i beidio ag iselhau'r ddadl i sefyllfa syml o ddwy ysgol gyffelyb yn dadlau dros ysgol fwydo "uchel ei pherfformiad" pan fo'r materion yn fwy cymhleth o lawer na hynny.

Nodaf hefyd yr ymatebion manwl a gwrthgyferbyniol gan benaethiaid a chadeiryddion y ddwy ysgol yr effeithir arnynt, ond tynnaf eich sylw'n benodol at yr e-bost gan Bennaeth Ysgol Pencae (CA16/WM/372). Mae'n allweddol, gan mai ef sy'n arwain yr ysgol gynradd sydd wrth galon yr adolygiad. Er bod y broses gywir wedi ei dilyn yn dechnegol, ymddengys o'i sylwadau mai dau ddiwrnod yn unig cyn i'r ymgynghoriad agor y cafodd ef ei friffio. Gallai hyn fod wedi effeithio'n andwyol ar enw da'r Pennaeth a'r llywodraethwyr am na fyddent wedi cael amser digonol, yn fy marn i sydd hefyd yn llywodraethwr, i drafod mater mor bwysig cyn i'r ymgynghoriad gael ei lansio.

Rhoddir y ddadl wrthgyferbyniol na ddylid troi Ysgol Glantaf yn 'ysgol elît' - eto, gofynnaf i hyn gael ei nodi ond i beidio â'i wneud yn brif ffactor wrth ddod i benderfyniad. Mater pwysicach yw'r diffyg briff i'r corff llywodraethu ynghylch effaith y cynigion hir dymor ar rieni blynyddoedd 3-5, a'r ffaith nad yw'r byr rybudd yn eu galluogi i gynllunio ar gyfer effaith rhannu plant yn grwpiau wrth i rieni orfod gwneud penderfyniadau. Mae apeliadau posibl ynghylch cydlyniant rhwng brodyr a chwiorydd hefyd yn fater i'w ystyried, fel y nodwyd yn flaenorol.

Rwyf felly yn dadlau dros alw i mewn, bydd hyn yn caniatáu hefyd i lywodraethwyr Pencae gael mwy o amser i ystyried ac addasu i'r newidiadau mawr a'r pwysau yn 2019.

Diolch am eich cymorth caredig gyda'r mater hwn. Edrychaf ymlaen at glywed gennych cyn bo hir.

Cofion

Y Cynghorydd Paul Mitchell

Cynghorydd dros y Tyllgoed a Phentre-baen

Cadeirydd Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd

Aelod o'r Pwyllgor Archwilio

Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Cantonian

Ysgol Gynradd y Tyllgoed

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

PENDERFYNIAD CABINET CAB/15/84 - Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion (Dalgylchoedd Ysgolion Cymraeg)

Cais i Alw i Mewn gan y Cynghorydd Neil McEvoy

Annwyl Paul,

Hoffwn alw penderfyniad CAB/15/84 i mewn.

Y rheswm sydd gen i yw bod holl agwedd y Cyngor tuag at addysg cyfrwng Cymraeg yn un adweithiol a darniog. Mae'r cynllun i newid y dalgylchoedd yn un byr dymor ac ni all unrhyw drafodaeth ar ddarpariaeth uwchradd ddigwydd yn realistig heb bennu amserlen ar gyfer y bedwaredd ysgol cyfrwng Cymraeg, y mae'r angen amdani'n amlwg. Mae'r galw yn uwch yn sgil agor ysgol newydd Hamadryad.

Yr hyn a welwn yn gyson gan Gyngor Caerdydd yw amharodrwydd i gefnogi'r Gymraeg, gyda rhai eithriadau anrhydeddus. Mae rhieni o bob dosbarth cymdeithasol ac ethnigrwydd yn dewis addysg Gymraeg ac mae'n ddyletswydd ar Gaerdydd i ddarparu ar gyfer hyn heb agwedd y gellid ei dadlau sy'n rhoi corff llywodraethu yn erbyn corff llywodraethu a chymuned yn erbyn cymuned.

Deallaf gan ymgyrchwyr fod dau gynghorydd arall yn galw'r penderfyniad hwn i mewn ar yr un sail â fi, heblaw am y bedwaredd ysgol Gymraeg y cyfeiriais ati uchod. Rwyf am arbed y Pwyllgor rhag gorfod darllen tri chais sydd yn union yr un fath â'i gilydd. Hoffwn ychwanegu yn ffurfiol nad oes ymchwiliad llawn wedi bod i'r effaith socioeconomaidd ar Blasmawr ac nad yw barn rhydd-ddeiliaid pwysig wedi ei hystyried.

Hoffwn i'r Pwyllgor Craffu edrych yn ofalus ar benderfyniad Cabinet CAB/15/84

Yn gywir,
Y Cynghorydd Neil McEvoy
5 Ebrill 2016

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol